CYMRAEG

ADDYSG CYMRU
EDUCATION WALES
cenhadaeth ein cenedl | our national mission

Llywodraeth Cymru
Welsh Government



# Canllawiau ar Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg

# Canllawiau ar Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg

**Cynulleidfa**

Awdurdodau lleol; cyrff addysg sy'n ymwneud â Chynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg, neu sydd â diddordeb ynddynt, gan gynnwys ysgolion, consortia rhanbarthol, undebau athrawon, Estyn, sefydliadau dyfarnu, ymarferwyr, cyrff cyhoeddus, ac eraill sydd â diddordeb.

**Trosolwg**

Mae'r canllawiau hyn yn nodi sut y dylai awdurdodau lleol gydymffurfio â'r darpariaethau ar y Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) yn Neddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ('y Ddeddf') a'r rheoliadau a wneir o dan y Ddeddf honno. Cyhoeddir y canllawiau statudol hyn o dan adran 87 (5) o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 sy'n darparu bod yn rhaid i awdurdodau lleol roi sylw iddi.

**Rhagor o wybodaeth**

Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:
Is-adran y Gymraeg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

e-bost: **UnedIaithGymraegWelshLanguageUnit@llyw.cymru**

**Copïau ychwanegol**

Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn
**llyw.cymru/y-gymraeg-mewn-addysg**

**Dogfennau cysylltiedig**

*Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol* (2017); *Symud Cymru Ymlaen 2016-2021* (2016); *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr* (2017); *Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein cenedl, Cynllun gweithredu 2017–21* (2017); *Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein cenedl, Diweddariad Hydref 2020* (2020); Cytundeb Blaengar rhwng y Prif Weinidog a'r Gweinidog Addysg; *Y Gymraeg mewn Addysg: Cynllun gweithredu 2017–21* (2017); *Gwella'r Broses Cynllunio Addysg Gymraeg – Argymhellion y Bwrdd Cynghori Strategol y Gymraeg mewn Addysg* (2019); *Adroddiad yr Adolygiad Annibynnol i ail-ddiffinio ysgolion yn ôl eu darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg* (2020).

OGL © Hawlfraint y Goron 2021 WG39748 ISBN digidol 978 1 80038 313 5

# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| **Rhagair gan y Gweinidog** | | **2** |
| **Rhan 1 - Cefndir** | | |
| 1.1 | Cefndir statudol y Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg | 4 |
| 1.2 | Cyd-destun strategol | 6 |
| 1.3 | Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr | 7 |
| **Rhan 2 - Sut i fynd ati i lunio eich Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg** | | |
| 2.1 | Y camau cynllunio statudol ar gyfer eich Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg | 9 |
| 2.2 | Materion i'w hystyried wrth gyfrifo'r targed deng mlynedd yn eich Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg | 10 |
| 2.3 | Deilliannau allweddol | 14 |
| **Rhan 3 - Cefnogaeth i weithredu eich Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg** | | |
| 3.1 | Partneriaethau allweddol wrth gynllunio a gweithredu eich Cynllun | 27 |
| 3.2 | Fforwm cynllunio Cymraeg mewn Addysg | 27 |
| 3.3 | Cefnogaeth Llywodraeth Cymru | 28 |
| **Rhan 4 - Atodiadau** | | |
| Atodiad 1: | Amserlen cynllunio a gweithredu Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg | 35 |
| Atodiad 2: | Methodoleg i gyfrifo eich targed deng mlynedd | 36 |
| Atodiad 3: | Y mudiadau a'r sefydliadau sydd yn gallu cefnogi gwaith gweithredu Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg gan awdurdodau lleol | 44 |
| Atodiad 4: | Pensaernïaeth Dewis: Awgrymiadau i wneud i hyn oll ddigwydd | 47 |

## Rhagair gan y Gweinidog



“Rydym yn dechrau pennod newydd yn y ffordd rydym yn cynllunio'r Gymraeg mewn addysg. Cymraeg 2050: ein strategaeth ar gyfer miliwn o siaradwyr Cymraeg yw'r sylfaen ar gyfer hyn oll. Bydd ein cyfraniadau heddiw, a'ch cyfraniadau wrth weithredu eich Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg dros y 10 mlynedd nesaf, yn ein helpu i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg. Mae pob dysgwr yn cyfrif – gadewch i ni wneud pob dysgwr yn un o bob miliwn.

Rwy’n gwybod fod heriau a sialensiau o'n blaenau, dim mwy na’r rheiny sy’n ein wynebu gyda COVID-19. Fodd bynnag, gyda'n gilydd, fel awdurdodau lleol a rhanddeiliaid CSCA, rydym eisoes wedi cymryd camau breision i gynyddu canran y dysgwyr mewn addysg cyfrwng Cymraeg mewn Cynlluniau Cymraeg mewn Addysg. Ac rwyf am weld hynny'n parhau.

Diolch o galon am weithio gyda ni ar y rheoliadau CSCA newydd a ddaeth i rym y llynedd. Mae'r rhan rydych wedi'i chwarae, o'ch ymatebion i'n hymgynghoriad i bopeth rydych wedi'i rannu â’r Bwrdd Cynghori CSCA, wedi ein helpu i adeiladu fframwaith rheoleiddio sydd bellach wedi'i alinio'n llawn â'n huchelgeisiau ar gyfer ehangu'r ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg. Diolch hefyd i Fwrdd Cynghori CSCA am ddangos i ni sut i weithredu'r argymhellion a wnaed yn Adolygiad Brys o’r CSCA, 2017.

Rwyf am gefnogi ein holl ddysgwyr ledled Cymru yn eu dysgu o'n hiaith. Mae dilyniant ym maes Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu yn y cwricwlwm newydd wedi’i seilio ar gontinwwm dysgu sy'n galluogi dysgwyr â sgiliau Cymraeg, hyd yn

oed rhywfaint bach, i ddatblygu ac adeiladu ar eu sgiliau a'u hyder. A dyna'r pwynt – mae gan bob un ohonom y potensial i ddatblygu ein sgiliau iaith Gymraeg, a cham wrth gam, gallwn adeiladu arnynt.

Bydd sut rydym yn meithrin sgiliau iaith ein dysgwyr yn y Gymraeg yn dibynnu ar fodel yr ysgol. Mae Cymraeg 2050 yn glir mai trochi cyfrwng Cymraeg - sef lle mae cyfrwng yr addysgu a'r dysgu yn cael ei gyflwyno'n gyfan gwbl neu'n bennaf drwy gyfrwng y Gymraeg - yw'r model mwyaf dibynadwy ar gyfer creu siaradwyr Cymraeg gyda'r sgiliau a'r hyder i ddefnyddio'r iaith yn gyfforddus yn eu bywydau bob dydd. Wrth i'r cwricwlwm newydd gael ei gyflwyno, bydd y rôl y mae addysg cyfrwng Saesneg yn ei chwarae yn dod yn bwysicach fyth wrth gynhyrchu dysgwyr sy'n gallu defnyddio'r Gymraeg ac sydd am ddefnyddio'r Gymraeg. Mae’r Gymraeg yn perthyn i ni i gyd.


Rhaid inni roi amser i'r datblygiadau hyn wreiddio. Dyna pam rwy'n cefnogi'r symud i gynllunio’r Gymraeg dros gyfnod hwy - cylch cynllunio CSCA 10 mlynedd. Rhaid i ni chwarae gêm tymor hir i gyrraedd miliwn o siaradwyr – mae angen i ni fod yn strategol. Mae angen i ni wybod i ble rydyn ni'n mynd. Gyda chamau bach, gallwn gyrraedd ein nod.

Bydd angen i bob un ohonom baratoi CSCA yn seiliedig ar dargedau strategol uchelgeisiol, wedi'u cyfrifo gan ddefnyddio'r fethodoleg rydym wedi'i datblygu. Mae'r targedau'n cyfateb i gerrig milltir addysg Cymraeg 2050. Mae data cychwynnol yn awgrymu ein bod ar y trywydd iawn i ymateb i dargedau addysg Cymraeg 2050. Erbyn diwedd y cylch CSCA nesaf yn 2032, rwy'n disgwyl cyrraedd ein carreg filltir nesaf o 30%. Newyddion da ond mae angen inni ddechrau cynllunio, a chynllunio'n gynharach. Dyna pam mae'r CSCA newydd yn rhoi mwy o ffocws ar weithio gyda darparwyr gofal plant i helpu cynllunio ysgolion.

Dwi eisoes wedi dweud ein bod ni'n chwarae gêm tymor hir. Ac mae CSCA yn offeryn strategol hirdymor i awdurdodau lleol gyrraedd lle'r ydym i gyd am fod – Cymru lle mae miliwn o siaradwyr Cymraeg. Cymru lle rydym wedi dyblu'r defnydd dyddiol o'r Gymraeg, lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. Mae’r CSCA yn gatalydd ar gyfer ehangu'r ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg ledled Cymru.

Felly diolch unwaith eto am y cyfan rydych chi wedi'i wneud, ac am y cyfan rydyn ni ar fin ei wneud gyda'n gilydd. Gyda'n gilydd, byddwn yn gyrru'r agenda addysg cyfrwng Cymraeg yn ei blaen ac yn ysbrydoli cenedlaethau newydd o ddysgwyr i fod yn un o’r miliwn.

Pob hwyl ar y daith.”



**Kirsty Williams AS**
Y Gweinidog Addysg

# Rhan 1 – Cefndir

Mae'r ddogfen hon yn darparu canllawiau i awdurdodau lleol gydymffurfio â'r darpariaethau ar y Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn addysg (CSCA) *yn Neddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013* ('y Ddeddf') a'r Rheoliadau a wneir o dan y Ddeddf honno.

Cyhoeddir y canllawiau statudol hyn o dan adran 87 (5) o *Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion Cymru 2013* sy'n darparu bod yn rhaid i awdurdodau lleol roi sylw iddi. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu ystyried y canllawiau ac, os penderfynant wyro oddi wrthynt, sicrhau bod ganddynt resymau clir a chyfiawn dros wneud hynny.

## 1.1. Cefndir statudol y Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg

Mae adran 84 o *Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013*[1] ("Deddf 2013") yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol baratoi Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg ("y Cynllun"), ac mae'n nodi y dylai Cynllun o'r fath gynnwys:

a. Cynigion awdurdod lleol ynghylch sut y bydd yn cyflawni ei swyddogaethau addysg er mwyn:

   i. Gwella'r broses o gynllunio'r modd y mae addysg drwy gyfrwng y Gymraeg ("addysg cyfrwng Cymraeg") yn cael ei darparu yn ei ardal;
   ii. Gwella safonau addysg cyfrwng Cymraeg a safonau addysgu Cymraeg yn ei ardal;

b. Targedau'r awdurdod lleol ar gyfer gwella'r broses o gynllunio'r modd y mae addysg cyfrwng Cymraeg yn cael ei darparu yn ei ardal ac ar gyfer gwella safonau'r addysg honno ac addysgu Cymraeg yn ei ardal;

c. Adroddiad ar y cynnydd a wnaed i fodloni'r targedau a gynhwyswyd yn y cynllun blaenorol neu'r cynllun diwygiedig blaenorol.

Mae adran 84 hefyd yn nodi pwy y mae'n ofynnol i awdurdod lleol ymgynghori â nhw wrth baratoi neu ddiwygio ei Gynllun, ac mae'n darparu pŵer i Weinidogion Cymru i ragnodi unigolion eraill y mae'n rhaid i'r awdurdod lleol ymgynghori â nhw.

Mae adran 85 o Ddeddf 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol gyflwyno ei Gynllun i Weinidogion Cymru i'w gymeradwyo.

Gall Gweinidogion Cymru wneud y canlynol:

- cymeradwyo'r Cynllun fel y'i cyflwynwyd
- cymeradwyo'r Cynllun gydag addasiadau, neu

[1] http://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2013/1/contents

- wrthod y Cynllun a llunio Cynllun arall a gaiff ei drin fel Cynllun cymeradwy'r awdurdod

Mae is-adran (6) o adran 85 yn gosod dyletswydd ar awdurdod lleol i gymryd pob cam rhesymol i weithredu Cynllun a gymeradwywyd.

Mae adran 87 o Ddeddf 2013 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau a fydd yn gwneud darpariaethau pellach ar faterion fel ffurf a chynnwys Cynllun, ei amseriad a'i hyd, cadw golwg ar Gynllun, ymgynghori arno, ei gyflwyno i Weinidogion Cymru ei gymeradwyo a'i gyhoeddi. Caiff y rheoliadau hefyd wneud darpariaeth sy'n galluogi dau neu fwy o awdurdodau lleol i lunio cydgynllun.

*Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg ac Asesu'r Galw am Addysg Cyfrwng Cymraeg (Cymru) 2013*[2] ("Rheoliadau 2013"), oedd y rheoliadau cyntaf a wnaed o dan bwerau adran 87. Mae'r Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019[3] ("Rheoliadau 2019") yn disodli'r rheoliadau hynny ac yn gwneud darpariaeth i awdurdod lleol lunio Cynllun deng mlynedd, y cyntaf i gael effaith o 1 Medi 2022[4] yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth Gweinidogion Cymru. Maent hefyd yn gwneud darpariaeth ar gyfer y materion a ganlyn:

a) ffurf a chynnwys y Cynllun (rheoliad 3);
b) cyfnod para'r Cynllun (rheoliad 4);
c) y dyddiad erbyn pryd y mae rhaid cyflwyno'r Cynllun i Weinidogion Cymru i'w gymeradwyo (rheoliad 5);
d) cymeradwyo Cynllun (rheoliad 6);
e) amserlenni ar gyfer cyflwyno adroddiad adolygu (rheoliad 7);
f) trefniadau ar gyfer diwygio'r Cynllun (rheoliad 8);
g) y personau a'r cyrff y mae rhaid i awdurdod lleol ymgynghori â hwy ynghylch y Cynllun drafft (rheoliad 9);
h) y dyddiad erbyn pryd y mae rhaid cyhoeddi'r Cynllun (rheoliad 10);
i) dull cyhoeddi Cynllun (rheoliad 11);
j) dirymu, gydag arbedion, *Reoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg ac Asesu'r Galw am Addysg Cyfrwng Cymraeg (Cymru) 2013* (rheoliad 12).

Diben y rheoliadau hyn yw gwella cyfleoedd i awdurdodau lleol gynllunio darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg er mwyn cyfrannu at gyflawni'r disgwyliad o ran twf addysg cyfrwng Cymraeg, nawr ac yn y dyfodol. Bydd gwella'r ffordd y caiff addysg cyfrwng Cymraeg ei chynllunio hefyd yn cyfrannu at gyflawni ein huchelgais genedlaethol hirdymor ar gyfer y Gymraeg a amlinellir yn ein strategaeth *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr*, eich strategaeth ar gyfer hybu'r Gymraeg yn unol â'r Safonau Hybu o dan reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015[5] a'r gwaith o gyflwyno cwricwlwm newydd i Gymru.

[2] http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2013/3048/contents/made
[3] http://www.legislation.gov.uk/wsi/2019/1489/note/made/welsh
[4] https://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2020/1194/regulation/2/made/welsh
[5] https://www.legislation.gov.uk/wsi/2015/996/contents/made/welsh

Mewn ymateb i bandemig COVID-19 diwygiwyd Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019. Daeth Rheoliadau Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg (Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws) 2020 ("Rheoliadau 2020") i rym ar 1 Rhagfyr 2020 yn gwneud newidiadau sydd wedi arwain at symud dyddiad cychwyn y cylch CSCA nesaf o 1 Medi 2021 i flwyddyn yn ddiweddarach (i Medi 2022).

## 1.2 Cyd-destun Strategol

Mae *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015*[6] yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus ledled Cymru a enwir yn y ddeddf weithio tuag at gyflawni saith nod llesiant, gan gynnwys 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu'. Mae dyletswydd arnom i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg ac i weithio tuag at gyflawni'r nodau llesiant.

Nod *Ffyniant i Bawb: Y Strategaeth Genedlaethol*[7], a'n rhaglen lywodraethu *Symud Cymru Ymlaen 2016-2021*[8] yw llywio gwelliannau i economi a gwasanaethau cyhoeddus Cymru er mwyn creu Cymru sy'n ffyniannus a diogel, yn iach ac egnïol, yn uchelgeisiol ac yn dysgu, ac sydd wedi'i huno a'i chysylltu. Un o'r blaenoriaethau yw i weddnewid y modd y caiff y Gymraeg ei dysgu, ei haddysgu a'i hasesu er mwyn sicrhau yn y dyfodol, fod pob dysgwr yn gallu defnyddio'r Gymraeg pan fydd yn gadael yr ysgol.

Cyhoeddwyd strategaeth *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr*[9] ym mis Awst 2017. Mae ein huchelgais i sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 a pharhau i annog mwy o bobl i ddefnyddio a siarad Cymraeg yn eu bywydau bob dydd yn ymgorffori nodau a gwerthoedd y Ddeddf Lleisiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac hefyd Ffyniant i Bawb: ein strategaeth genedlaethol.

Mae Addysg yng Nghymru: *Cenhadaeth ein cenedl, Cynllun gweithredu 2017-21*[10] yn nodi sut y bydd y system ysgolion yng Nghymru, gan gynnwys y chweched dosbarth, yn symud ymlaen yn ystod y cyfnod tan 2021 er mwyn sicrhau y caiff y cwricwlwm newydd ei roi ar waith yn effeithiol. Ymhlith y bwriadau, mae'r dyhead y bydd mwy o'n dysgwyr yn ddwyieithog ac yn meddu ar feistrolaeth dda o ieithoedd eraill. Yn 2018, cadarnhaodd y Prif Weinidog a'r Gweinidog Addysg eu hymrwymiad i *Gytundeb Blaengar 2016*[11], gan ddiweddaru'r blaenoriaethau Cyffredin a'r blaenoriaethau Addysg i gynnwys, ymysg eraill: ymrwymiad i annog athrawon sydd â rhywfaint o allu yn y Gymraeg i ddatblygu eu sgiliau ymhellach er mwyn dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg, yn ogystal â pharhau i gydweithio â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol a phartneriaid eraill i wella darpariaeth sgiliau, cyrsiau galwedigaethol

[6] http://www.legislation.gov.uk/anaw/2015/2/contents/enacted/welsh
[7] http://www.legislation.gov.uk/anaw/2015/2/contents/enacted/welsh
[8] https://llyw.cymru/symud-cymru-ymlaen
[9] https://llyw.cymru/cymraeg-2050-strategaeth-y-gymraeg
[10] https://llyw.cymru/cenhadaeth-ein-cenedl
[11] https://llyw.cymru/kirsty-williams-ac?_ga=2.242897926.525317987.1583328189-1279201904.1552664043

a hyrwyddo cyrsiau cyfrwng Cymraeg a lefelau recriwtio a chadw athrawon, yn unol â'n strategaeth Cymraeg 2050.

Mae'r cynllun *Y Gymraeg mewn Addysg, Cynllun Gweithredu 2017-21*[12] yn gosod y cyfeiriad ar gyfer datblygu addysg cyfrwng Cymraeg a Chymraeg yn unol â'r weledigaeth yn Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr ac Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein cenedl, Cynllun gweithredu 2017–21.

Er mwyn annog a hwyluso twf hirdymor mewn addysg cyfrwng Cymraeg a gwella safonau addysgu'r Gymraeg, disgwylir eich bod yn ystyried y canlynol wrth lunio eich Cynllun:

- Diwygiadau i'r gyfundrefn addysg (h.y. y cwricwlwm ac asesu, atebolrwydd, datblygu'r gweithlu ac y dull cenedlaethol ar gyfer dysgu proffesiynol).
- Gofynion y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg (Cymru) 2018
- Rhaglen Ysgolion a Cholegau ar gyfer yr 21fed ganrif
- Canllawiau gwella ysgolion: fframwaith ar gyfer gwerthuso, gwella ac atebolrwydd
- Asesiadau o Ddigonolrwydd Gofal Plant
- Cytundebau a wneir o dan adran 106 o'r Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990
- Gwasanaethau plant a phobl ifanc
- Y cod derbyn i ysgolion
- Y cod trefniadaeth ysgolion
- Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008
- Addysg ôl-16
- Strategaethau Hybu 5 mlynedd awdurdodau lleol, a wneir o dan safon 145 ac 146 o *Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015*
- Cynlluniau Datblygu Lleol

## 1.3 Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr

Mae Cymraeg 2050[13] yn cyflwyno gweledigaeth hirdymor ar gyfer Cymru lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. Mae'r strategaeth yn anelu at gynyddu:

- nifer y siaradwyr Cymraeg i 1 miliwn erbyn 2050 a
- sicrhau bod canran y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg bob dydd, ac sy'n gallu siarad mwy nag ychydig eiriau o Gymraeg, yn cynyddu o 10% (yn 2013–15) i 20% erbyn 2050.

Mae'r Strategaeth yn ffocysu ar dair thema:

- Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg
- Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg
- Creu amodau ffafriol – seilwaith a chyd-destun

[12] https://llyw.cymru/cymraeg-mewn-addysg-cynllun-gweithredu-2017-i-2021
[13] https://llyw.cymru/cymraeg-2050-strategaeth-y-gymraeg

Mae gan ein system addysg statudol rôl hollbwysig i'w chwarae er mwyn cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg. Rhaid i ni gynyddu nifer y dysgwyr ysgol sy'n cael y cyfle i feithrin sgiliau Cymraeg yn yr ysgol a'r cyfle i ddefnyddio'r iaith yn eu bywydau bob dydd, a hynny'n sylweddol, er mwyn cyrraedd ein nodau.

Mae'r taflwybr a ddatblygwyd ar gyfer Cymraeg 2050 yn egluro mwy am y daith tuag at filiwn o siaradwyr Cymraeg. O ran y gyfundrefn addysg, rydym am gynyddu'r gyfran o bob grŵp blwyddyn ysgol sy'n cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae data ysgolion[14] yn dweud wrthym faint o blant sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn 2018/19, roedd 23% o'r 35,800 o ddysgwyr ym mlwyddyn 2[15] wedi cael eu hasesu yn Gymraeg (iaith gyntaf). Rydyn ni am i hynny gynyddu fel a ganlyn:

- 24% erbyn 2020/21
- 30% erbyn 2030/31 (tua 10,500 ym mhob grŵp blwyddyn)
- 40% erbyn 2050 (tua 14,000 ym mhob grŵp blwyddyn).

Yn ogystal â chynyddu cyfran y dysgwyr sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, rydyn ni hefyd am:

- drawsnewid y ffordd rydym yn addysgu Cymraeg i bob dysgwr er mwyn sicrhau bod o leiaf 70% o'r dysgwyr hynny yn dweud, erbyn 2050, eu bod yn gallu siarad Cymraeg pan fyddant yn gadael yr ysgol, a
- chynyddu nifer yr athrawon cynradd a all addysgu yn Gymraeg o 2,900 i 3,900 erbyn 2031 a 5,200 erbyn 2050; cynyddu nifer yr athrawon uwchradd a all addysgu Cymraeg o 500 i 900 yn 2031 a 1,200 erbyn 2050; a chynyddu nifer yr athrawon uwchradd a all addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg o 1,800 i 3,200 erbyn 2031 a 4,200 erbyn 2050.

Ein gweledigaeth yw galluogi pob dysgwr i ddatblygu ei sgiliau Cymraeg a defnyddio'r iaith yn hyderus yn eu bywydau bob dydd. Mae Cymraeg 2050 yn nodi'n glir mai addysg drochi lawn yn y Gymraeg – hynny yw, addysg mewn lleoliad cyfrwng Cymraeg neu gyfrwng Cymraeg yn bennaf – yw'r ffordd fwyaf dibynadwy o greu unigolion gyda'r sgiliau a'r hyder i ddefnyddio'r iaith yn gyfforddus yn eu bywydau pob dydd. Rydym hefyd am gynyddu nifer y dysgwyr mewn ysgolion cyfrwng Saesneg sy'n siarad Cymraeg.

Er mwyn cyflawni'r weledigaeth hon, mae'n rhaid i ni sicrhau bod pob dysgwr yn elwa ar gwricwlwm newydd o'r radd flaenaf, sy'n cynnwys un continwwm ar gyfer dysgu Cymraeg. Wrth i'r cwricwlwm newydd gael ei gyflwyno, daw rôl addysg cyfrwng Saesneg yn fwy clir - o ran cynhyrchu dysgwyr sy'n *gallu* defnyddio'r Gymraeg ac sydd *eisiau* defnyddio'r Gymraeg wrth symud ymlaen i addysg bellach, hyfforddiant neu yn ystod eu gyrfa.

---

[14] Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion, CYBLD

[15] Blwyddyn 2 yw'r grŵp blwyddyn lle bydd mwyafrif y plant, yn y flwyddyn ysgol, yn cyrraedd 7 oed. Ni fu casgliad o ddata asesiadau athrawon yn 2019/20.

# Rhan 2 – Sut i fynd ati i lunio eich Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg

## 2.1 Y camau cynllunio statudol ar gyfer eich Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg

Fel sydd eisoes wedi ei egluro yn Rhan 1, bydd gofyn i chi ddilyn rhai camau statudol wrth lunio, cyflwyno a diweddaru eich Cynllun.

### 2.1.1 Llunio a chyflwyno'r Cynllun deng mlynedd cyntaf

**Llunio a chyflwyno'r Cynllun deng mlynedd cyntaf** i Weinidogion Cymru ei gymeradwyo heb fod yn hwyrach na 31 Ionawr 2022. Bydd disgwyl i bob Cynllun deng mlynedd dilynol gael ei gyflwyno i Weinidogion Cymru i'w gymeradwyo heb fod yn hwyrach na 31 Mawrth yn y flwyddyn y bydd y Cynllun mewn grym. Os na fydd **Gweinidogion Cymru yn cymeradwyo Cynllun deng mlynedd** erbyn 1 Medi yn y flwyddyn y mae'r Cynllun hwnnw'n cael ei roi mewn grym, yna mae'r Cynllun hwnnw'n cael ei roi mewn grym **un mis calendr** ar ôl i Weinidogion Cymru gymeradwyo'r Cynllun. Ni fydd hyn yn effeithio ar y dyddiad y bydd y Cynllun deng mlynedd yn dod i ben arno, oni bai bod y Cynllun yn cael ei ddisodli gan Gynllun diwygiedig.

### 2.1.2 Cychwyn y Cynllun deg mlynedd cyntaf

Bydd y Cynllun deng mlynedd cyntaf yn cychwyn ar 1 Medi 2022 ac yn dod i ben ar 31 Awst 2032. Bydd pob Cynllun pellach yn cychwyn ar 1 Medi yn y flwyddyn pan fydd y Cynllun deng mlynedd blaenorol yn dod i ben h.y. 1 Medi 2032 i 31 Awst 2042 ayb. Rhaid i'r Cynllun gynnwys targed sy'n amlinellu'r cynnydd disgwyliedig yn nifer y dysgwyr Blwyddyn 1 a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg yn ardal yr awdurdod lleol yn ystod oes y Cynllun. Wrth gyfrifo'r targed, rhaid i chi roi sylw i'r fethodoleg a gyflwynir dan 2.2 o'r canllaw hwn.

### 2.1.3 Ymgynghori ar y Cynllun

Bydd disgwyl i chi **ymgynghori am ddim llai nag 8 wythnos** â'r personau canlynol:

a) awdurdodau lleol cyfagos;
b) pennaeth pob ysgol a gynhelir gan yr awdurdod;
c) corff llywodraethu pob ysgol a gynhelir gan yr awdurdod;
d) pob sefydliad yn y sector addysg bellach yn yr ardal ;
e) mewn perthynas ag unrhyw ysgol sylfaen neu ysgol wirfoddol yn yr ardal –
   – yr unigolyn sy'n gyfrifol am benodi llywodraethwyr
   – os oes gan yr ysgol nodweddion crefyddol, y corff crefyddol perthnasol
f) Comisiynydd y Gymraeg (o fewn ystyr adran 2 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011);
g) Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (o fewn yr ystyr "Early Years Development and Childcare Partnership" yn adran 119 o Ddeddf 1998);
h) Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru;
i) darparwyr hyfforddiant cychwynnol athrawon ysgol;

j) unrhyw sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau i blant a phobl ifanc y mae'r awdurdod lleol yn ystyried eu bod yn briodol; ac
k) unrhyw bersonau neu gyrff eraill yr ymddengys i'r awdurdod lleol eu bod yn briodol.

### 2.1.4 Cyhoeddi'r Cynllun (neu'r Cynllun diwygiedig)

**Cyhoeddi'r Cynllun (neu'r Cynllun diwygiedig)** ar neu cyn y dyddiad y mae'r Cynllun yn cael ei roi mewn grym. Rhaid i chi gyhoeddi eich Cynllun (neu eich Cynllun diwygiedig) drwy ei roi ar eich gwefan; a sicrhau bod copïau o'r Cynllun ar gael i'r cyhoedd edrych arnynt ym mhob un o'i swyddfeydd sydd ar agor i'r cyhoedd ac unrhyw le arall sy'n cael ei ystyried ei fod yn briodol.

### 2.1.5 Cyflwyno adroddiad adolygu

**Cyflwyno adroddiad adolygu i Weinidogion Cymru**, gan ddechrau yn 2023 yn amlinellu'r cynnydd a wnaed i gyflawni'r targedau sydd wedi eu cynnwys yn eich Cynllun a'r camau a gymerwyd o ganlyniad i'r datganiadau yn eich Cynllun. Rhaid cyflwyno'r adroddiad adolygu cyntaf i Weinidogion Cymru heb fod yn hwyrach na 31 Gorffennaf 2023 a bydd yn amlinellu'r cynnydd a wnaed a'r camau a gymerwyd gan yr awdurdod lleol yn y cyfnod ers i'r Cynllun deng mlynedd cyntaf gael ei roi mewn grym. Rhaid i adroddiadau adolygu dilynol gael eu cyflwyno i Weinidogion Cymru ar gyfnodau heb fod yn fwy na 12 mis calendr ar ôl cyflwyno'r adroddiad blaenorol. Dylid ymgynghori â'ch Fforwm Cynllunio Cymraeg mewn Addysg (os yw wedi ei sefydlu yn eich ardal), ac unrhyw berson arall sy'n briodol yn eich barn chi, ar gynnwys yr adroddiad adolygu.

### 2.1.6 Diwygio Cynllun

Os ydych yn penderfynu bod angen diwygio eich Cynllun ar sail cynnydd eich adroddiad adolygu, rhaid i chi gyflwyno'r Cynllun diwygiedig i Weinidogion Cymru i'w gymeradwyo heb fod yn hwyrach na 6 mis calendr ar ôl i'r adroddiad adolygu gael ei gyflwyno. Mae'r Cynllun diwygiedig yn dod i rym un mis calendr ar ôl cymeradwyo'r Cynllun diwygiedig, ac mewn grym am weddill y cyfnod yr oedd y Cynllun sy'n cael ei ddisodli ganddo mewn grym yn wreiddiol.

## 2.2. Materion i'w hystyried wrth gyfrifo'r targed deng mlynedd eich Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg

Mae'n ofynnol o dan *Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019* i chi **osod targed deng mlynedd** sy'n amlinellu'r cynnydd disgwyliedig mewn plant Blwyddyn 1 a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg yn ardal yr awdurdod lleol.

Rhaid i'r targed hwn gael ei **gefnogi gan ddatganiad** sy'n nodi sut y byddwch yn cyflawni'r cynnydd disgwyliedig yn nifer y dysgwyr Blwyddyn 1 a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg yn ystod oes y Cynllun. Dyma yw targed trosfwaol deng mlynedd y CSCA ar gyfer 2022-2032.

Mae'r fethodoleg i gyfrifo’r targed yn gyson â'r cerrig milltir yn *Cymraeg 2050* sy'n ymwneud â'r cynnydd yn nifer y dysgwyr mewn addysg cyfrwng Cymraeg sydd ei angen er mwyn cyrraedd y targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae'r broses cyfrifo niferoedd wedi'i seilio ar nifer y dysgwyr Blwyddyn 1 (5/6 oed) a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg, yn ôl gwybodaeth Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD). Data CYBLD ar gyfer dysgwyr Blwyddyn 1 yw'r set ddata fwyaf cynhwysfawr sydd ar gael ar gyfer dysgwyr yn ystod cyfnodau cynharaf addysg ysgol gynradd.

Yn ogystal, rydym wedi eich grwpio i wahanol gategorïau sy'n dangos y gwahaniaethau (a chan gydnabod yr elfennau tebyg) rhwng y 22 awdurdod lleol.

Mae’r ffactorau a ystyriwyd wrth grwpio yn cynnwys canran y dysgwyr sy’n cael eu haddysgu yn Gymraeg yn eich ardal, y modelau darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg a fabwysiadwyd gennych, a natur ieithyddol eich ardal. Mae hyn yn egluro pam y gallai rhai ohonoch fod mewn un grŵp er bod eich canran gwaelodlin o ddysgwyr Blwyddyn 1 sy’n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn uwch na rhai o’r awdurdodau lleol mewn grŵp arall.

Rydym o’r farn bod y dull hwn yn decach gan ei fod yn cydnabod yr heriau gwahanol sy’n eich wynebu. Mae hefyd yn glir i bawb beth y mae Gweinidogion Cymru yn credu ddylai eich cyfraniad fod wrth gyrraedd y targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Mae'r pedwar grŵp fel a ganlyn:

**Grŵp 1**
Mae’r mwyafrif helaeth o blant Blwyddyn 1 (mwy na 91% yn 2019/20) eisoes yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn yr awdurdodau lleol hyn. Addysg gymunedol cyfrwng Cymraeg yw’r norm ac mae ysgolion cyfrwng Saesneg yn eithriadau prin.

**Grŵp 2**
Roedd rhwng 17% a 73% o blant Blwyddyn 1 yn yr awdurdodau lleol hyn yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn 2019/20. Efallai mai addysg gymunedol drwy gyfrwng y Gymraeg yw’r norm, neu ei bod yn norm mewn nifer sylweddol o gymunedau o fewn yr awdurdod lleol. Mewn ardaloedd eraill, mae dewis rhwng addysg cyfrwng Cymraeg ac addysg cyfrwng Saesneg.

**Grŵp 3**
Roedd rhwng 14% a 19% o blant Blwyddyn 1 yn yr awdurdodau lleol hyn yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn 2019/20. Efallai mai addysg gymunedol cyfrwng Cymraeg yw’r norm mewn un/nifer fach iawn o ardaloedd, ond dyma’r eithriad nid y rheol. Fel arfer mae dewis rhwng addysg cyfrwng Cymraeg ac addysg cyfrwng Saesneg.

**Grŵp 4**
Roedd 13% neu lai o blant Blwyddyn 1 yn yr awdurdodau lleol hyn yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn 2019/20. Mae dewis rhwng addysg cyfrwng Cymraeg ac addysg cyfrwng Saesneg yn yr awdurdodau lleol hyn.

### Ystod y cynnydd mewn pwyntiau canran yn y plant Blwyddyn 1 sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer pob grŵp i gyfarfod er mwyn cyfrannu at y targed cenedlaethol o 30% o ddysgwyr yn derbyn addysg cyfrwng Cymraeg erbyn 2030/31

**Amrediad cynnydd pwyntiau canran**

| | Isaf | Uwch |
|---|---|---|
| **Grŵp 1** | 0 | 0+ |
| **Grŵp 2** | 10 | 14+ |
| **Grŵp 3** | 8 | 12+ |
| **Grŵp 4** | 6 | 10+ |

Pennwyd yr amrediad is ar gyfer pob grŵp fel bod y targed cenedlaethol o 30% o ddysgwyr Blwyddyn 1 yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg erbyn 2030/31 yn cael ei gyflawni.

Ni ddylid ystyried yr amrediad uchaf yn derfyn uchaf – anogir i chi ragori ar y targedau lle y bo'n bosibl.

### Targedau i'w hystyried gan awdurdod lleol, yn seiliedig ar y fethodoleg gyfredol

| | 2019/20 | | Targed 2030/31 | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Ystod Isaf | | Ystod Uwch | |
| | Rhif | Canran | Rhif | Canran | Rhif | Canran |
| **Grŵp 1** | | | | | | |
| Ynys Môn | 654 | 91.1% | 655 | 91% | 655 | 91% |
| Gwynedd | 1,143 | 98.5% | 1,145 | 99% | 1,145 | 99% |
| **Grŵp 2** | | | | | | |
| Conwy | 283 | 25.8% | 395 | 36% | 435 | 40% |
| Sir Ddinbych | 299 | 27.3% | 410 | 37% | 455 | 41% |
| Powys | 283 | 22.2% | 410 | 32% | 460 | 36% |
| Ceredigion | 465 | 72.9% | 530 | 83% | 555 | 87% |
| Sir Benfro | 293 | 22.9% | 420 | 33% | 470 | 37% |
| Sir Gaerfyrddin | 1,126 | 58.4% | 1,320 | 68% | 1,395 | 72% |
| Castell Nedd Port Talbot | 252 | 17.0% | 400 | 27% | 460 | 31% |
| **Grŵp 3** | | | | | | |
| Wrecsam | 235 | 15.0% | 360 | 23% | 425 | 27% |
| Abertawe | 390 | 15.4% | 590 | 23% | 695 | 27% |
| Bro Morgannwg | 221 | 14.3% | 345 | 22% | 405 | 26% |
| Rhondda Cynon Taf | 506 | 19.1% | 720 | 27% | 825 | 31% |
| Merthyr Tudful | 100 | 14.0% | 155 | 22% | 185 | 26% |
| Caerffili | 359 | 17.9% | 520 | 26% | 600 | 30% |
| Caerdydd | 702 | 16.9% | 1,035 | 25% | 1,200 | 29% |
| **Grŵp 4** | | | | | | |
| Sir y Fflint | 105 | 6.3% | 205 | 12% | 270 | 16% |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 119 | 7.6% | 215 | 14% | 275 | 18% |
| Blaenau Gwent | 29 | 3.7% | 75 | 10% | 105 | 14% |
| Torfaen | 139 | 13.0% | 205 | 19% | 245 | 23% |
| Sir Fynwy | 32 | 3.8% | 80 | 10% | 115 | 14% |
| Casnewydd | 113 | 5.7% | 230 | 12% | 310 | 16% |
| **Cymru** | **7,848** | **23.3%** | **10,415** | **31%** | **11,690** | **35%** |

I weld y fethodoleg gyflawn a baratowyd gennym, gweler **Atodiad 2**

## 2.3 Deilliannau allweddol

Er mwyn cefnogi'r broses gynllunio, dymunwn eich gweld yn trefnu eich Cynlluniau o gwmpas y deilliannau isod. Mae'r deilliannau'n adlewyrchu taith addysg dysgwr ac yn cydweddu â meysydd polisi **Cymraeg 2050** a **Cenhadaeth ein Cenedl**.

- **Deilliant 1**: Mwy o blant meithrin/tair oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg
- **Deilliant 2**: Mwy o blant dosbarth derbyn/pump oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg
- **Deilliant 3**: Mwy o blant yn parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o un cyfnod o'u haddysg statudol i un arall
- **Deilliant 4**: Mwy o ddysgwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau Cymraeg (fel pwnc) a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg
- **Deilliant 5**: Mwy o gyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau gwahanol yn yr ysgol
- **Deilliant 6**: Cynnydd yn y ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol ("ADY") yn unol â'r dyletswyddau a bennir gan y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018
- **Deilliant 7**: Cynnydd yn nifer y staff addysgu sy'n gallu addysgu Cymraeg (fel pwnc) a thrwy gyfrwng y Gymraeg

Cyflwynir isod y wybodaeth y mae'n rhaid i chi ei gynnwys yn eich Cynllun fesul deilliant, a hynny yn seiliedig ar ofynion statudol.

Cyflwynir yn ogystal ystyriaethau cynllunio y dylech eu hystyried er mwyn hwyluso'r broses gynllunio, adolygu a gwerthuso.

| **Deilliant 1: Mwy o blant meithrin/ tair oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg** |
|---|
| Gwybodaeth y **mae'n rhaid** ei chynnwys yn eich CSCA |
| Sut y bydd yr awdurdod lleol yn defnyddio data sy'n deillio o'i adolygiad o ddigonolrwydd darpariaeth gofal plant ar gyfer ei ardal (o dan ddyletswyddau a nodir yn rheoliad 3 o Rheoliadau Deddf Gofal Plant 2006 (Asesiadau Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2016) er mwyn cynllunio addysg cyfrwng Cymraeg.<br>*Paragraff 3 o'r Atodlen i Reoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019*<br><br>Datganiad sy'n nodi—<br><br>(a) sut y bydd yr awdurdod lleol yn rhoi gwybodaeth i rieni a gofalwyr o ran argaeledd addysg cyfrwng Cymraeg a'r math o addysg cyfrwng Cymraeg a gynigir;<br>(b) sut y bydd yn rhoi gwybodaeth i rieni a gofalwyr sy'n datgan bod addysg cyfrwng Cymraeg yn opsiwn i bersonau ni waeth beth fo'u cefndir ieithyddol;<br>(c) sut y bydd yn gwneud y defnydd gorau o wybodaeth ynghylch y manteision a all ddaw yn sgil dwyieithrwydd ac amlieithrwydd.<br>*Paragraff 9 o'r Atodlen i Reoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019*<br><br>Sut y bydd yr awdurdod lleol, gan gydweithio ag awdurdodau lleol eraill fel y bo angen, yn hybu mynediad i addysg a hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg mewn perthynas â chludiant i ddysgwyr yn unol â'r ddyletswydd a nodir o dan adran 10 o Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008.<br>*Paragraff 20 o'r Atodlen i Reoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019* |
| Ystyriaethau cynllunio *y* **dylech** eu hystyried |
| • A ydych chi'n manteisio ar bob cyfle i gyfathrebu a chyd-gynllunio gyda chyrff ym maes y blynyddoedd cynnar i gryfhau ac ehangu'r ddarpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg sydd yn yr ardal er mwyn sicrhau llwybr di-dor at addysg cyfrwng Cymraeg? Oes strwythur ffurfiol wedi'i gytuno er mwyn sicrhau bod y trafodaethau hynny yn digwydd? Mae Mudiad Meithrin yn gweithredu rhaglen 'Sefydlu a Symud' (SAS) i ehangu darpariaeth sy'n cyfrannu at nod ein strategaeth i sicrhau 150 yn fwy o grwpiau meithrin er mwyn hwyluso dilyniant i addysg cyfrwng Cymraeg. Holwch eich swyddog CSCA am fwy o wybodaeth.<br><br>• A ydych wedi ystyried sut y gall cyflwyno a datblygu darpariaeth Dechrau'n Deg helpu i gyflawni'r deilliant hwn? Mae hyn yn cynnwys ystyried canran a nifer y lleoedd ar gael drwy raglen Dechrau'n Deg mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg a sut mae modd defnyddio'r targed ar gyfer Deilliant 1 i helpu i ddatblygu hyn ymhellach.<br><br>• A ydych wedi sicrhau bod eich Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd ar gyfer rhieni/gofalwyr a darpar rieni/gofalwyr yn darparu gwybodaeth am fanteision |

magu plant yn ddwyieithog a defnyddio'r Gymraeg yng nghartref y teulu; yn cydweithio gyda Cymraeg i Blant, Mudiad Meithrin ac eraill i hyrwyddo'r hyn a gynigir yn lleol; ac yn cyfeirio unigolion at lenyddiaeth a chyhoeddiadau Cymraeg a gwybodaeth am gyfleoedd i oedolion ddysgu Cymraeg?

- A ydych yn cynnal trafodaethau â'ch tîm derbyniadau er mwyn sicrhau bod gwybodaeth glir a chynhwysfawr yn cael ei chynnwys yn eich llyfryn/trefniadau ar gyfer derbyniadau addysg cyfrwng Cymraeg? A yw'r wybodaeth honno ar gael ar eich gwefan hefyd?

- Wrth adolygu eich trefniadau derbyn, a ydych wedi ystyried sut mae categoreiddio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn adlewyrchu eich cynlluniau ar gyfer cynyddu faint o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ar draws pob ysgol?

- A fyddai eich swyddogion sy'n ymdrin ag ymholiadau gan rieni/gofalwyr yn elwa ar dderbyn hyfforddiant ar sut i drafod yr opsiynau addysg cyfrwng Cymraeg sydd ar gael iddynt yn ogystal â chwestiynau/pryderon cyffredin?

- Wrth ystyried eich proses ar-lein ar gyfer derbyniadau i'r ysgol, a ydych wedi sicrhau eich bod wedi ystyried llwybr y defnyddiwr (sef y rhieni/gofalwyr sydd yn ceisio am le ysgol i'w plant) yn llawn, er mwyn sicrhau bod cyfleoedd yn ystod y broses sy'n cynnig gwybodaeth am opsiynau addysg cyfrwng Cymraeg yn eich ardal? (Gweler Atodiad 4 i gael rhagor o wybodaeth).

- A ydych wedi ystyried pa bethau a all fod yn achos pryder i rieni/gofalwyr ac a ydych wedi mynd i'r afael â'r pryderon hynny fel rhan o'r wybodaeth/llenyddiaeth yr ydych yn ei dosbarthu?

- A ydych chi'n manteisio ar ein hymgyrchoedd a'n rhaglenni marchnata er mwyn cefnogi eich ymdrechion i hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg yn eich ardal? Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:
  - Gwefan **llyw.cymru/cymraeg-i-blant** a sianeli cyfryngau cymdeithasol Cymraeg i Blant, sy'n cynnwys adnoddau i rieni (llyfryn addysg, llyfr caneuon, taflenni lliwio, ayb) yn ogystal â gwybodaeth am addysg cyfrwng Cymraeg yn seiliedig ar ymchwil gydnabyddedig.
  - Sianel YouTube Gymraeg - **www.youtube.com/cymraeg** - sy'n cynnwys fideos am addysg Gymraeg, caneuon Cymraeg i Blant, busnes, yn ogystal â deunyddiau i gefnogi'r Siarter Iaith.
  - Sianeli eraill Llywodraeth Cymru – Cymraeg, Siarter Iaith, Dydd Miwsig Cymru.

- Sut fyddwch chi'n hyrwyddo mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg drwy arfer eich swyddogaethau o dan *Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008*. Mae Adran 10 o'r Mesur yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i 'hybu mynediad i addysg a hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg'?

- A ydych wedi sicrhau bod eich cynlluniau o dan Raglen Ysgolion a Cholegau ar gyfer yr 21ain Ganrif ar gyfer y blynyddoedd i ddod yn adlewyrchu targedau'r CSCA?

- A ydych yn amlinellu eich cynlluniau i sicrhau lleoedd digonol mewn unrhyw ysgol cyfrwng Cymraeg sydd o fewn trothwy capasiti o 10% neu'n agosáu ato?

| **Deilliant 2: Mwy o blant dosbarth derbyn/ pump oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg** |
|---|
| Gwybodaeth y **mae'n rhaid** ei chynnwys yn eich CSCA |
| Targed sy'n amlinellu'r cynnydd disgwyliedig yn nifer y plant yn y flwyddyn derbyn a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg yn ardal yr awdurdod lleol yn ystod oes y Cynllun.<br>*Paragraff 4(1)* o'r *Atodlen i Reoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019*<br><br>Datganiad sy'n nodi sut y bydd yr awdurdod lleol yn cyflawni'r cynnydd disgwyliedig yn nifer y plant yn y flwyddyn derbyn a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg yn ystod oes y Cynllun.<br>*Paragraff 4*(2)o'r *Atodlen i Reoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019*<br><br>Sut y bydd ceisiadau y mae'r awdurdod lleol yn eu gwneud am gyllid grant gan Weinidogion Cymru mewn cysylltiad ag ysgolion a gynhelir ganddo yn ystyried y targed i gynyddu nifer y plant Blwyddyn 1 a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg yn ystod oes y Cynllun.<br>*Paragraff 5 o'r Atodlen i Reoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019*<br><br>Trefniadau'r awdurdod lleol o ran ei ddarpariaeth ar gyfer hwyrddyfodiaid i addysg cyfrwng Cymraeg, gan gynnwys sut a phryd y mae gwybodaeth yn cael ei rhoi i rieni a gofalwyr.<br>Paragraff 7 o'r Atodlen i *Reoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019* |
| Ystyriaethau cynllunio *y* **dylech** eu hystyried |
| • A ydych wedi ystyried sut y byddwch yn cynyddu cyfleoedd i ddysgwyr o unrhyw gefndir ieithyddol gael mynediad i addysg cyfrwng Cymraeg?<br><br>• A ydych yn ystyried sut y bydd newidiadau arfaethedig i gategoreiddio ysgolion yn ôl eu darpariaeth o'r Gymraeg yn effeithio arnoch chi, a'ch ymrwymiadau i gynyddu darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg a dwyieithog/ffrwd ddeuol o fewn eich ardal?<br><br>• A yw eich polisi hwyrddyfodiaid i ddysgwyr (7 oed neu hŷn) nad ydynt yn siarad Cymraeg ond sydd am gael addysg cyfrwng Cymraeg ar ôl diwedd y cyfnod sylfaen, yn cyd-fynd â'ch gweledigaeth 10 mlynedd i ddatblygu addysg cyfrwng Cymraeg?<br><br>• A ydych chi wedi amlinellu eich darpariaeth hwyrddyfodiaid bresennol a'ch cynlluniau i'w ddatblygu a'i hehangu ymhellach? e.e. canolfannau iaith, darpariaeth rithwir, cymorth peripatetig |

| **Deilliant 3: Mwy o blant yn parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o un cyfnod o'u haddysg statudol i un arall** |
|---|
| Gwybodaeth y **mae'n rhaid** ei chynnwys yn eich CSCA |
| Sut y bydd yr awdurdod lleol yn sicrhau bod personau a addysgir yn Gymraeg yn parhau i gael eu haddysgu felly wrth drosglwyddo o un grŵp blwyddyn i grŵp blwyddyn arall, a chynllunio yn unol â hynny os yw'r cyfraddau cadw yn destun pryder i'r awdurdod<br>*Paragraff 10 o'r Atodlen i Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019*<br><br>Targed sy'n amlinellu'r cynnydd disgwyliedig yn ystod oes y Cynllun yn yr addysg cyfrwng Cymraeg a ddarperir yn ei ysgolion a gynhelir sy'n darparu addysg drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg<br>*Paragraff 11(1) o'r Atodlen i Reoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019*<br><br>Datganiad sy'n nodi sut y bydd yr awdurdod lleol yn cyflawni'r cynnydd disgwyliedig yn ystod oes y Cynllun yn yr addysg cyfrwng Cymraeg a ddarperir yn ei ysgolion a gynhelir sy'n darparu addysg drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.<br>*Paragraff 11(2) o'r Atodlen i Reoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019*<br><br>Sut y bydd yr awdurdod lleol yn cydweithio ag awdurdodau lleol eraill drwy arfer eu swyddogaethau ar y cyd er mwyn sicrhau parhad mewn trefniadau ar gyfer personau sy'n cael addysg cyfrwng Cymraeg y tu allan i'w ardal.<br>*Paragraff 6 o'r Atodlen i Reoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019* |
| Ystyriaethau cynllunio *y* **dylech** eu hystyried |
| • A ydych wedi ystyried y dulliau y byddwch yn eu defnyddio i fonitro dilyniant ieithyddol?<br><br>• Os yw'r gyfradd trosglwyddo o un grŵp blwyddyn i'r llall yn destun pryder, gallech drafod â'ch Fforwm Cynllunio Cymraeg mewn Addysg a/neu eich clwstwr ysgolion cyfrwng Cymraeg pa ffactorau allai fod yn peri i'r cyfraddau trosglwyddo ostwng, e.e. dilyniant o'r feithrinfa, adeilad ysgol newydd gerllaw, newidiadau i'ch polisïau cludiant ysgol, yr angen i gryfhau trefniadau pontio, neu a oes angen ymgyrch farchnata neu hyrwyddo benodol arnoch.<br><br>• A ydych wedi ystyried ffyrdd y gall ysgolion cynradd ac uwchradd weithio mewn partneriaeth agos i dargedu rhieni/gofalwyr er mwyn hyrwyddo dilyniant ieithyddol?<br><br>• A ydych wedi sicrhau bod yr holl staff sy'n debygol o ddod i gysylltiad â rhieni yn ymwybodol o'r negeseuon allweddol ynghylch addysg cyfrwng Cymraeg a dilyniant ieithyddol fel y gallent ateb unrhyw gwestiynau sydd gan y rhieni? Mae fideos a allai fod o gymorth ar gael ar y sianel YouTube Gymraeg. |

- Gydag un continwwm o ddysgu Cymraeg yn rhan o’r cwricwlwm newydd i Gymru, a ydych chi wrthi yn adnabod, ar y cyd gyda’ch ysgolion, cyfleoedd i gynyddu’r gyfran o’r ddarpariaeth dysgu Cymraeg ar gynnig? *Mae trefniadau mewn lle i gefnogi awdurdodau lleol ac ysgolion i gategoreiddio eu darpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion. Gofynnwch i’ch swyddog CSCA yn Llywodraeth Cymru am fwy o wybodaeth.

| **Deilliant 4: Mwy o ddysgwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau Cymraeg (fel pwnc) a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg** |
| --- |
| Gwybodaeth y **mae'n rhaid** ei chynnwys yn eich CSCA |
| Targed yr awdurdod lleol sy'n amlinellu'r cynnydd disgwyliedig yn ystod oes y Cynllun yn nifer a chanran y dysgwyr ym mlwyddyn 10 ac uwch yn ei ysgolion uwchradd a gynhelir sy'n astudio am gymwysterau ac sy'n cael eu hasesu drwy gyfrwng y Gymraeg<br>*Paragraff 12*(1) *o'r Atodlen i Reoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019*<br><br>Datganiad sy'n nodi sut y bydd yr awdurdod lleol yn cyflawni'r cynnydd disgwyliedig yn ystod oes y Cynllun yn nifer a chanran y personau ym mlwyddyn 10 ac uwch yn ei ysgolion uwchradd a gynhelir sy'n astudio am gymwysterau ac sy'n cael eu hasesu drwy gyfrwng y Gymraeg<br>*Paragraff 12*(2) *o'r Atodlen i Reoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019*<br><br>Sut y bydd awdurdod lleol yn rhoi cymorth i barhau â'r addysg cyfrwng Cymraeg a ddarperir ar gyfer personau ym mlwyddyn 10 ac uwch drwy gydweithio ag ysgolion eraill a SABau[16] eraill os bydd angen.<br>*Paragraff 13 o'r Atodlen i Reoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019*<br><br>Sut y bydd yr awdurdod lleol yn cydweithio a'i ysgolion a SABau (os bydd angen) i gyd-drefnu darpariaeth Gymraeg fel pwnc i bersonau sydd ym mlwyddyn 10 ac uwch yn ei ysgolion uwchradd a gynhelir.<br>*Paragraff 14 o'r Atodlen i Reoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019* |
| Ystyriaethau cynllunio *y* **dylech** eu hystyried |
| • Sut ydych chi'n cefnogi ysgolion uwchradd i gymryd camau i gynyddu nifer y cymwysterau y gall dysgwyr eu hastudio drwy gyfrwng y Gymraeg?<br><br>• Sut ydych chi'n cydweithio ag ysgolion i sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei chynnig fel pwnc Safon Uwch mewn ysgolion, gan gefnogi ysgolion i gynnal dosbarthiadau llai os oes rhaid er mwyn diogelu'r pwnc?<br><br>• Sut ydych chi yn cydweithio ag ysgolion i hyrwyddo manteision astudio'r Gymraeg fel pwnc ymhlith disgyblion a rhieni /gofalwyr?<br><br>• Rydym wedi lansio ymgyrch i annog mwy o bobl ifanc i ystyried Cymraeg fel Safon Uwch – bydd cynnwys fideo ar gael ar sianel YouTube Gymraeg (https://www.youtube.com/cymraeg) a thrwy sianeli cyfryngau cymdeithasol *Cymraeg*. Mae croeso i chi ddefnyddio a rhannu'r cynnwys hwn. |

[16] Sefydliadau o fewn y sector addysg bellach yng Nghymru fel y diffinnir "institutions within the further education sector" gan adran 91(3) o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992(5)

- Rydym yn adolygu’r broses o goladu data am gyrsiau cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion Cymraeg a dwyieithog (gan ystyried pwnc, cyfrwng iaith, y cynnig a’r nifer sy’n dilyn y cyrsiau). Byddwn yn eich diweddaru wrth i’r gwaith hwn ddatblygu.

| **Deilliant 5: Mwy o gyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau gwahanol yn yr ysgol** |
|---|
| Gwybodaeth y **mae'n rhaid** ei chynnwys yn eich CSCA |
| Sut y bydd yr awdurdod lleol yn gwella sgiliau Cymraeg personau sy'n cael addysg cyfrwng Cymraeg mewn unrhyw ysgol a gynhelir ganddo er mwyn gwella safonau addysg cyfrwng Cymraeg.<br>*Paragraff 15 o'r Atodlen i Reoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019* |
| Ystyriaethau cynllunio *y* **dylech** eu hystyried |
| • A ydych chi wedi ystyried cysylltu'r deilliant hwn â strategaeth hyrwyddo 5 mlynedd yr awdurdod lleol sy'n ofyniad dan Safonau'r Gymraeg?<br><br>• Ydych wedi ystyried mapio'r ddarpariaeth gyfredol sydd ar gael i blant oed ysgol i ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg y tu allan i'r dosbarth a thu allan i'r ysgol drwy weithio mewn partneriaeth â'ch gwasanaethau ieuenctid a sefydliadau megis yr Urdd a Menter Iaith?<br>• A ydych yn trafod â'ch consortia rhanbarthol am y cyfleoedd sydd ar gael i bobl ifanc drwy fframwaith y Siarter Iaith neu raglenni tebyg? E.e. oes gennych gofnod o nifer yr ysgolion yn yr awdurdod lleol sy'n gweithredu'r Siarter Iaith/Cymraeg campus ac wedi cael cyfle i werthuso ei effaith.<br><br>• A ydych wedi ystyried is-grŵp o'ch fforwm i arwain y gwaith hwn?<br><br>• Ar gyfer ysgolion cynradd – mae gwefan Siarter Iaith a sianeli cymdeithasol Seren a Sbarc yn cynnwys adnoddau a gwybodaeth i ddisgyblion: https://gov.wales/cymraeg-education/schools/welsh-language-charter |

| **Deilliant 6: Cynnydd yn y ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (“ADY”) (yn unol â'r dyletswyddau a bennir gan y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018** |
|---|
| Gwybodaeth y **mae’n rhaid** ei chynnwys yn eich CSCA |
| Sut y bydd awdurdod lleol yn defnyddio canfyddiadau ei adolygiadau o dan adran 63 o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 er mwyn gwella darpariaeth Gymraeg ar gyfer personau ag anghenion dysgu ychwanegol ac ar gyfer cynllunio gweithlu o fewn y sector anghenion dysgu ychwanegol.<br>*Paragraff 16 o’r Atodlen i Reoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019* |
| Ystyriaethau cynllunio *y* **dylech** eu hystyried |
| • A ydych wedi sicrhau eich bod yn croesgyfeirio at y dyletswyddau a nodir yn y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 er mwyn sicrhau cysondeb?<br><br>• Sut y byddwch yn asesu maint a gallu'r gweithlu Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) cyfrwng Cymraeg a defnyddio'r canlyniadau i gynllunio'r gweithlu yn y sector hwn?<br><br>• A ydych chi’n ymgysylltu â rhieni/gofalwyr er mwyn sicrhau eu bod yn deall y ddarpariaeth a'r cymorth sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg?<br><br>• A ydych chi’n cydweithio ag awdurdodau lleol eraill a chonsortia rhanbarthol er mwyn cynyddu a gwella'r ddarpariaeth sydd ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg?<br><br>• A ydych wedi ystyried cynnal archwiliad o'r adnoddau dysgu sydd eu hangen ar hyn o bryd ac nad ydynt ar gael yn eich awdurdod lleol er mwyn cefnogi dysgwyr ag ADY yn ogystal â'r ffordd yr ydych yn rhannu adnoddau’n fewnol ac yn rhanbarthol? |

| **Deilliant 7: Cynnydd yn nifer y staff addysgu sy'n gallu addysgu Cymraeg (fel pwnc) a thrwy gyfrwng y Gymraeg** |
|---|
| Gwybodaeth y **mae'n rhaid** ei chynnwys yn eich CSCA |
| Ymrwymiad yr awdurdod lleol i adnabod y gweithlu y mae ei angen arno er mwyn darparu addysg cyfrwng Cymraeg yn ystod oes y cynllun yn unol â thargedau'r Cynllun, ac i gyfrifo unrhyw ddiffyg disgwyliedig yn ei weithlu.<br>*Paragraff 17 o'r Atodlen i Reoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019*<br><br>Ymrwymiad yr awdurdod lleol i gydweithio ag awdurdodau lleol eraill drwy arfer eu swyddogaethau ar y cyd wrth gynllunio a darparu cymorth er mwyn gwella sgiliau Cymraeg athrawon ysgol a gweithwyr cymorth dysgu mewn ysgolion, mewn ysgolion a gynhelir yn ei ardal<br>*Paragraff 18 o'r Atodlen i Reoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019*<br><br>Ymrwymiad yr awdurdod lleol, gan gydweithio ag awdurdodau lleol eraill ac asiantaethau eraill, i sicrhau bod y Cynllun yn cael ei ystyried yn ystod ystyriaethau ynghylch safonau addysgol cyfrwng Cymraeg ysgolion a gynhelir yn ei ardal.<br>*Paragraff 19 o'r Atodlen i Reoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019* |
| Ystyriaethau cynllunio *y* **dylech** eu hystyried |
| • Sut byddwch yn defnyddio data cyfrifiad blynyddol gweithlu'r ysgolion i lywio'r gwaith o gynllunio'r gweithlu a rhagdybio faint o athrawon fydd ei angen ar gyfer y dyfodol yn seiliedig ar ragdybiaethau e.e. y nifer a fydd yn ymddeol.<br><br>• Faint o swyddi gwag sydd yn yr awdurdod lleol yn ôl math o ysgol e.e. cynradd, uwchradd, arbennig,  a beth yw'r 'tueddiadau' o ran swyddi gwag?<br><br>• A oes gennych syniad o nifer yr athrawon sydd eu hangen arnoch fesul math o ysgol (a phwnc os yw'n berthnasol) – yn seiliedig ar y sefyllfa bresennol ac er mwyn ymateb i'ch targedau?<br><br>• A oes genych syniad o nifer y penaethiaid sydd eu hangen yn yr awdurdod – yn seiliedig ar y sefyllfa bresennol ac er mwyn ymateb i'ch targedau?<br><br>• Sut y byddwch yn gweithio gyda chonsortia rhanbarthol a'r Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol er mwyn sicrhau cyflenwad digonol o benaethiaid ar gyfer y sector cyfrwng Cymraeg?<br><br>• Sut y byddwch yn gweithio gyda chonsortia rhanbarthol a darparwyr addysg gychwynnol i athrawon er mwyn sicrhau cyflenwad digonol o athrawon cyfrwng Cymraeg? |

- Sut y byddwch yn mynd ati i wybod faint o weithwyr cymorth dysgu sydd ei angen arnoch ar gyfer y sector cyfrwng Cymraeg?
- Sut y byddwch, mewn cyd-weithrediad a'r consortia rhanbarthol yn helpu athrawon ysgol a gweithwyr cymorth dysgu mewn ysgolion i wella eu sgiliau Cymraeg a'u sgiliau addysgu Cymraeg er enghraifft trwy ddefnyddio cyrsiau Cynllun Sabothol Iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru gan gynnwys cynllunio ôl-ofal i unigolion ar ddiwedd cwrs?
- Sut y byddwch yn gweithio mewn partneriaeth â chonsortia rhanbarthol er mwyn sicrhau bod ysgolion yn adlewyrchu sgiliau Cymraeg athrawon ysgol a gweithwyr cymorth dysgu mewn ysgolion yn gywir pan fyddant yn cwblhau cyfrifiad gweithlu ysgolion ac yn defnyddio data'r cyfrifiad i lywio'r gwaith o gynllunio'r gweithlu a dysgu proffesiynol?

# Rhan 3 – Cefnogaeth i weithredu eich Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg

## 3.1 Partneriaethau allweddol wrth gynllunio a gweithredu eich Cynllun

Er bod gennych gyfrifoldeb statudol i baratoi a gweithredu'r Cynllun, gall sawl sefydliad arall chwarae rôl allweddol i'ch helpu i lunio, gweithredu a gwerthuso'r Cynllun.

Rydym yn glir mai ein cyfrifoldeb ni yw arwain yr ymateb cenedlaethol i faterion fel addysg gychwynnol athrawon, a materion yn ymwneud â'r gweithlu ac adnoddau. Fodd bynnag, gallwch chi a rhanddeiliaid eraill ein helpu i nodi'r bylchau y mae angen mynd i'r afael â hwy. Dyna pam mae'r materion hyn yn parhau i gael eu cynnwys yng ngofynion y CSCA.

Dylech wneud pob ymdrech i feithrin a chynnal perthynas waith adeiladol gyda'r grwpiau neu'r sefydliadau sy'n cyfrannu at y Cynllun.

## 3.2 Fforwm cynllunio Cymraeg mewn Addysg

Gofynnir i chi nodi sut rydych wedi gweithio mewn partneriaeth â'ch Fforwm Cynllunio Cymraeg mewn Addysg (os yw wedi ei sefydlu yn eich ardal) i lunio eich Cynllun a sut y bydd y fforwm yn goruchwylio ei weithredu a'i werthuso (*Paragraff 8 o'r Atodlen i Reoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019).*

Mae'r mwyafrif ohonoch eisoes wedi sefydlu fforymau o'r fath ac wedi elwa ar y cyfleoedd i gyd-gynllunio gyda'ch rhan-ddeiliaid lleol.  Mae'n arfer da i aelodau'r fforwm ddatblygu a chytuno **cylch gorchwyl** clir i'r Fforwm Cynllunio Cymraeg mewn Addysg.

Mae cylch gorchwyl o'r fath yn rhywbeth i bob un ohonoch ei bennu eich hun ond mae'n arferol i Fforwm Cynllunio Cymraeg mewn Addysg gynnwys cynrychiolaeth o'r sefydliadau canlynol:

*Mudiad Meithrin; Cymraeg i Blant; RhAG, Urdd; Menter Iaith; Cynrychiolaeth o Benaethiaid Cynradd ac Uwchradd (Sector Cymraeg/ Saesneg); Colegau Addysg Bellach; Colegau Addysg Uwch; Consortia Rhanbarthol; Llywodraeth Cymru*

Ac o blith (swyddogion) eich awdurdod lleol:

*Cyfarwyddwr Addysg / Uwch Swyddogion Addysg; Cynghorwyr lleol gyda chyfrifoldeb dros addysg, neu'r Gymraeg; Swyddogion Trefniadaeth a Chynllunio Ysgolion, Cyfalaf, Derbyniadau Ysgolion, Anghenion Dysgu Ychwanegol; Blynyddoedd Cynnar, Dechrau'n Deg, Ieuenctid, Swyddogion y Gymraeg a Marchnata.*

Gall fod o fudd pe cadeirir y cyfarfodydd gan eich Cyfarwyddwr Addysg/Uwch Swyddog Addysg. Ond rydym yn ymwybodol bod rhai ohonoch yn dewis cadeirydd o blith yr aelodau.

Mae fforymau fel arfer yn cyfarfod rhwng 2 - 4 gwaith y flwyddyn. Erbyn hyn mae nifer fawr o fforymau yn digwydd yn rhithiol gan gynnig cyfleoedd i gyfarfod yn fwy aml nag o’r blaen. Gwyddom mai’r fforymau mwyaf effeithiol a rhagweithiol yw’r rheini sy’n cytuno ar gamau gweithredu a thargedau clir, ac sydd ag aelodau yn arwain ar wahanol agweddau ar y gwaith.

Mae nifer ohonoch wedi sefydlu is-grwpiau i hwyluso’r cynllunio a’r gweithredu. Yn yr ardaloedd hynny lle y mae is-grwpiau wedi’u sefydlu (e.e. is-grwpiau sy’n canolbwyntio ar y blynyddoedd cynnar, neu ar hyrwyddo manteision addysg Gymraeg), gwelwyd bod gwneud hynny wedi arwain at gydgynllunio a phroses weithredu well.

Mae’r mudiadau a sefydliadau sydd yn aelodau o Fforymau Cynllunio Cymraeg mewn Addysg yn amlach na pheidio yn cael eu hariannu yn rhannol, neu yn llawn gennym i hyrwyddo'r Gymraeg ac addysg cyfrwng Cymraeg yn lleol. Byddem yn eich annog i sefydlu fforwm os nad oes un yn bodoli.

Gweler **Atodiad 3** i ddysgu mwy am y mudiadau a’r sefydliadau sydd yn gallu cefnogi’r gwaith o weithredu eich Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg.

## 3.3 Cefnogaeth Llywodraeth Cymru

### 3.3.1 Cefnogaeth hyrwyddo y Gymraeg mewn addysg

Rydym eisoes yn cynhyrchu llawer o adnoddau i rieni sy’n ymwneud â chodi ymwybyddiaeth o addysg cyfrwng Cymraeg. Mae'r rhain yn cynnwys fideos YouTube Cymraeg sy’n amlinellu’r opsiynau addysg cyfrwng Cymraeg; caneuon i blant; ymgyrchoedd i annog ymwybyddiaeth o gerddoriaeth Gymraeg (Dydd Miwsig Cymru); a manteision astudio drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae’r ymgyrchoedd marchnata sy'n cael eu cynnal gennym wedi'u targedu at grwpiau penodol, e.e. darpar rieni a rhieni newydd, rhieni plant cyn oed ysgol, a darpar fyfyrwyr cyfrwng Cymraeg. Bydd y grwpiau hyn yn derbyn negeseuon marchnata pwrpasol gan ddefnyddio platfformau digidol yn bennaf, gan gynnwys y prif fathau o gyfryngau cymdeithasol.

Ewch i https://llyw.cymru/cymraeg-education i gael rhagor o wybodaeth ar y wefan, ac o ran y cyfryngau cymdeithasol gallwch fynd i Cymraeg i Blant ar Facebook neu @CymraegiBlant, a Seren a Sbarc ar Facebook neu @Serenasbarc ar Twitter. Gallwch hefyd e-bostio cymraeg@llyw.cymru i gael rhagor o wybodaeth.

Yn ystod 2021, byddwn yn rhoi adnoddau, templedi a chynnwys digidol/ar y we i chi eu defnyddio.

Gallwch hefyd drafod eich anghenion cymorth marchnata â'ch swyddog CSCA yn Llywodraeth Cymru.

### 3.3.2 Data i gefnogi'r gwaith cynllunio

Mae data ysgolion yn dweud wrthym faint o blant sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Maent yn ddangosydd allweddol o ran y twf sy'n ofynnol ac yn dangos pwysigrwydd sicrhau ymrwymiad y system addysg i greu miliwn o siaradwyr Cymraeg. Maent hefyd yn tynnu sylw at bwysigrwydd sector y blynyddoedd cynnar fel pwynt mynediad cynnar i addysg, ac fel ffordd o gynyddu'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg.

Er mwyn sicrhau cynllunio strategol a systematig, dylech ddefnyddio'r holl ffynonellau data addysg sydd ar gael i chi yn effeithiol. Bydd defnyddio'r data hynny yn bwysicach nag erioed wrth i ni symud tuag at system gynllunio sy'n seiliedig ar dargedau.

Byddwn yn darparu'r data canlynol i bob un ohonoch. Mae'n bosibl y gallai cynnwys y pecyn amrywio yn unol â threfniadau cyflwyno'r cwricwlwm newydd ac amserlen cyhoeddi data. Caiff y pecyn data hwn ei ddosbarthu ym mis Gorffennaf bob blwyddyn:[17]

- Niferoedd Cylchoedd Meithrin o fewn ardal yr awdurdod lleol a hefyd nifer a chanran y plant sy'n trosglwyddo o'r Cylch Meithrin i addysg gynradd cyfrwng Cymraeg
- Nifer a chanran y dysgwyr ym mhob grŵp oedran sy'n cael eu dysgu yn Gymraeg iaith gyntaf yn y dosbarth Meithrin, hyd at flwyddyn 13
- Nifer a chanran y dysgwyr sydd wedi'u cofrestru ar gyfer TGAU Cymraeg Iaith Gyntaf, TGAU Cymraeg Ail Iaith neu heb gofrestru ar gyfer y naill neu'r llall
- Nifer a chanran y dysgwyr sydd wedi cofrestru ac sy'n cael eu hasesu ar gyfer Safon Uwch Gyfrannol a Safon Uwch Cymraeg Iaith Gyntaf a Chymraeg Ail Iaith
- Canlyniadau sirol cyfrifiad blynyddol o'r gweithlu ysgolion o ran nifer sy'n medru addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg a lefel sgiliau iaith y gweithlu.[18]

Yn ogystal â defnyddio ffynonellau data, rhaid i ni wneud gwell defnydd o wybodaeth sydd gennym o'r CSCA, Cynlluniau Busnes Ysgolion yr 21ain Ganrif a Chynigion Trefniadaeth Ysgolion er mwyn deall ymhle y bydd ysgolion cyfrwng Cymraeg newydd yn cael eu hagor neu ymhle y bydd lleoedd addysg cyfrwng Cymraeg ychwanegol yn cael eu creu dros y deng mlynedd nesaf, er mwyn llywio'r gwaith o gynllunio'r gweithlu.

[17] Ar gyfer 2021, gellir darparu data yn gynharach er mwyn cefnogi'r gwaith cychwynnol o gynllunio CSCA drafft. Oherwydd COVID-19 efallai y bydd bylchau yn y data sydd ar gael.
[18] Cyhoeddwyd y cyfrifiad blynyddol o'r gweithlu ysgolion am y tro cyntaf yn 2019, ac felly ni ddylid defnyddio'r data hwn fel yr unig ffynhonnell i adnabod eich anghenion gweithlu am y tro.

### 3.3.3 Athrawon Cymraeg a chyfrwng Cymraeg

Rydym yn ymwybodol o'r her sy'n gysylltiedig â recriwtio athrawon yng Nghymru. Mae Cymraeg 2050 wedi amlinellu ein targedau tymor byr, tymor canolig a thymor hir ar gyfer y sector cyfrwng Cymraeg.

Mae arwyddion cynnar o gynnydd yn erbyn targedau 2021 yn awgrymu ein bod yn symud i'r cyfeiriad cywir o ran athrawon cynradd, ond bod angen ffocws penodol ar gynyddu nifer yr athrawon uwchradd a all addysgu Cymraeg neu bynciau eraill drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae angen i'r CSCA ddarparu gwybodaeth werthfawr ar lefel leol gan ddefnyddio gwybodaeth leol a data'r cyfrifiad blynyddol o'r gweithlu ysgolion er mwyn llywio'r gwaith o gynllunio'r gweithlu yn y dyfodol. Bydd yr wybodaeth honno'n ein helpu i ddeall ble y bydd angen cynyddu'r capasiti addysgu er mwyn helpu i lywio'r niferoedd a dderbynnir i raglenni AGA neu ddarpariaeth llwybrau amgen at ddysgu. Mae rhai o'r camau gweithredu sydd ar waith ar hyn o bryd i ymdrin â'r prinder hwn yn cynnwys y canlynol:

- Parhau â'r cymhelliant **Iaith Athrawon Yfory** sy'n targedu athrawon TAR uwchradd dan hyfforddiant sy'n hyfforddi i addysgu pob pwnc drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog. Mae'r cymhelliant yn ychwanegol at gymhellion eraill sydd ar gael i athrawon dan hyfforddiant (hyd at £20,000), ac mae'n cynnig cyfanswm o £5,000.

- Cydweithio agos â Chyngor y Gweithlu Addysg (CGA) a darparwyr Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA) er mwyn **ategu a chefnogi prosesau recriwtio ledled Cymru** a rhoi **ymgyrch cyfryngau digidol** ar waith sy'n anelu gweithgarwch marchnata at grwpiau penodol o ddarpar athrawon, gan gynnwys graddedigion cyfrwng Cymraeg. Mae'r CGA yn datblygu platfform newydd i hyrwyddo'r proffesiwn addysg fel gyrfa gan gynnwys creu un ffynhonnell o wybodaeth i'r rheini sy'n ystyried gyrfa dysgu.

- Datblygu **llwybrau amgen at addysgu** drwy'r Brifysgol Agored fydd yn cynnig rhaglenni rhan-amser ac mewn swydd wedi'u hachredu. Bydd cyfle i ddilyn llwybr addysgu ar gyfer y Gymraeg fel pwnc o Fedi 2020 ymlaen.

- Peilota **cyrsiau pontio** i athrawon sydd â Statws Athro Cymwysedig (SAC) i addysgu yn y sector cynradd gael hyfforddiant a chymorth ychwanegol er mwyn addysgu yn y sector uwchradd.

- Cydweithio agos â'r darparwyr Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA) i ddarparu rhaglenni AGA wedi'u hachredu. Mae'r rhaglenni'n cynnwys gofyniad i gynnwys **lleiafswm o 25 awr o hyfforddiant iaith Gymraeg**.

- **Gweithredu rhaglen o weithgareddau** wedi'u hanelu at gynyddu nifer y dysgwyr sy'n astudio Cymraeg ar lefel Safon Uwch a hyrwyddo llwybr at addysgu Cymraeg fel pwnc. Mewn partneriaeth â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, mae 60 ysgol hyd yma wedi derbyn grant bach o rhwng £800-£2,000 i gefnogi gweithgareddau sy'n hyrwyddo astudio'r Gymraeg neu i gefnogi'r costau sydd ynghlwm a chynnig darpariaeth i nifer bach o ddysgwyr.

- **Dosbarthu cyllid penodol i'r consortia rhanbarthol** o'r gyllideb Gwella Safonau Mewn Ysgolion i gefnogi'r gwaith o ddarparu dysgu proffesiynol Cymraeg a chyfrwng Cymraeg.

- Parhau i wella sgiliau Cymraeg ymarferwyr drwy'r **Cynllun Sabothol Iaith Gymraeg**. Mae'r Cynllun Sabothol yn darparu hyfforddiant Cymraeg a methodoleg ddwys i ymarferwyr er mwyn meithrin sgiliau Cymraeg ymarferwyr yn y sector cyfrwng Saesneg i'w galluogi i gyflwyno'r Gymraeg fel rhan o'r continwwm iaith unigol yn y cwricwlwm newydd; ac uwchsgilio ymarferwyr mewn ysgolion dwyieithog a chyfrwng Cymraeg er mwyn iddynt allu addysgu mwy o bynciau drwy gyfrwng y Gymraeg neu wella eu sgiliau Cymraeg er mwyn datblygu sgiliau llythrennedd Cymraeg dysgwyr ar draws y cwricwlwm.

### 3.3.4 E-sgol

Lansiwyd prosiect **E-sgol** yng Ngheredigion yn 2018. Mae'n cynnig cyfleoedd i fyfyrwyr sy'n astudio TGAU a Safon Uwch i fanteisio ar ddewis ehangach o bynciau, wedi'u haddysgu ar Microsoft Teams drwy Hwb drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.

Mae'r prosiect yn galluogi myfyrwyr o wahanol ysgolion i fanteisio ar gyfleoedd addysgu electronig gan athrawon cymwysedig a phrofiadol. Gall athrawon roi adborth byw i'r disgyblion ar unwaith a gall disgyblion gyfrannu ar lafar at y wers fel petai'r athro yn yr un ystafell. Gall y system hefyd greu cysylltiadau â darparwyr eraill fel Prifysgolion er mwyn darparu sesiynau cyfoethogi ar lefel UG a Safon Uwch. Mae prosiect E-sgol yn seiliedig ar gynllun e-sgoil yr Alban.

Yn dilyn y peilot yng Ngheredigion yn 2018 ehangwyd y prosiect yn ystod 2019/20 i gynnwys ysgolion ym Mhowys a Sir Gaerfyrddin; mae'r prosiect hefyd bellach yn cynnwys clwstwr o ysgolion yng Nghonwy a Sir Ddinbych.

Gellid ehangu'r prosiect hwn ymhellach er mwyn creu platfform cenedlaethol ar gyfer e-sgol fel y gallai ysgolion o bob cwr o Gymru ddefnyddio'r model hwn a chefnogi partneriaethau rhwng ysgolion a gwella'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ym mlynyddoedd 10-13. Gallwch gysylltu â'ch cyswllt CSCA yn Llywodraeth Cymru am fwy o wybodaeth.

### 3.3.5 Cefnogaeth ariannol pellach

Dylai costau gweithredu CSCA gael eu talu gan eich setliad refeniw llywodraeth leol a ddarperir gennym. Rôl y CSCA yw eich galluogi i wneud penderfyniadau mwy gwybodus am eich anghenion addysgol cyfrwng Cymraeg yn lleol.

Bydd y cyllid drwy Grant Gwella Addysg yn parhau, sy'n cynnwys y Grant Cymraeg mewn Addysg blaenorol i helpu i wireddu'r dyheadau a nodir yn ein strategaeth genedlaethol, Ffyniant i Bawb, a'r cynllun gweithredu ar gyfer addysg, Cenhadaeth ein Cenedl. Mae'r consortia rhanbarthol yn derbyn cyllid penodol o'r gyllideb Gwella Safonau Mewn Ysgolion i gefnogi'r gwaith o ddarparu dysgu, datblygiad proffesiynol Cymraeg a chyfrwng Cymraeg a defnydd anffurfiol o'r Gymraeg.

Trwy ein rhaglen gyfalaf i sicrhau addysg ac ysgolion ar gyfer yr 21ain ganrif a grantiau cyllido ysgolion eraill, ein nod yw cefnogi'r broses o foderneiddio ysgolion trwy fuddsoddiad hirdymor.

Dyfarnwyd £ 46m yn ystod 2018/19 i gefnogi'r twf mewn darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg. Roedd hynny wedi caniatáu i ni gefnogi 46 o brosiectau ar draws 20 awdurdod lleol. Bydd y rhain, pan fydd pob prosiect yn cael ei wireddu, yn arwain at 2,818 o leoedd ysgol a gofal plant ychwanegol ar gyfer dysgwyr cyfrwng Cymraeg. Bydd yr hwb ariannol hwnnw’n helpu ychydig i gefnogi'r cynnydd yn y ddarpariaeth sydd ei angen i ymateb i uchelgais Cymraeg 2050 a'r trefniadau CSCA newydd.

Mae cyfarfodydd adolygu cynlluniau cyfalaf ar y cyd a gynhaliwyd gyda swyddogion yr awdurdodau lleol wedi bod yn llwyddiannus iawn. Mae hyn yn rhoi cyfle i fonitro prosiectau cyfalaf ym Mand B, cyfrwng Cymraeg, gofal plant a meysydd polisi eraill. Mae’r gwaith cynllunio a monitro ar y cyd yn sicrhau gwerth am arian a dilyniant o’r sector gofal plant cyfrwng Cymraeg i’r sector addysg cyfrwng Cymraeg.

### 3.3.6 Cefnogaeth ddwys 1:1

Rydym yn eich annog i drafod eich anghenion cefnogaeth unigol â’ch swyddog CSCA yn Llywodraeth Cymru. Bydd cyfle i chi geisio am gefnogaeth ddwys 1:1 gennym os ydych wedi nodi bod angen cryfhau elfennau o waith gweithredu CSCA. Byddwn yn ystyried dulliau i deilwra’r gefnogaeth at eich anghenion unigol. Gallwch gysylltu â’ch cyswllt CSCA yn Llywodraeth Cymru am fwy o wybodaeth.

### 3.3.7 Ymyrraethau pellach

Byddwn yn parhau i ymgymryd ag ymchwil neu adolygiadau i gefnogi a chryfhau rhoi CSCA ar waith ac er mwyn mynd i’r afael â bylchau yn ein gwybodaeth. Enghraifft o hynny oedd yr Adolygiad Brys o’r CSCA a gynhaliwyd yn 2017 a arweiniodd at y newidiadau a welwn i flaenoriaethau a threfniadau’r CSCA ar gyfer 2022-2032.

Yn fwy diweddar, comisiynwyd adolygiad o’r modd y categoreiddir ysgolion yn ôl eu darpariaeth o’r Gymraeg ac i gynnig opsiynau i symleiddio a sicrhau eglurder ynghylch yr hyn a ystyrir bellach yn system sydd wedi dyddio. Cynhaliwyd yr adolygiad hwn mewn ymateb i argymhellion a gyflwynwyd yn adroddiad y Bwrdd Cynghori CSCA[19] a gyhoeddwyd ym mis Mai 2019. Rydym ar hyn o bryd yn diwygio’r canllaw ar gategoreiddio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.

Yn ogystal byddwn yn anelu at gynhyrchu adnoddau digidol a chynnwys ar y we sydd wedi'u teilwra at ddefnydd awdurdodau lleol gan ddefnyddio ymchwil pensaernïaeth dewis a fframwaith EAST (Easy, Attractive, Social and Timely) i sicrhau dewisiadau Hawdd, Deniadol, Cymdeithasol ac Amserol.

Ewch i **Atodiad 4** am awgrymiadau Pensaernïaeth Dewis.

---

[19] https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-05/gwellar-broses-cynllunio-addysg-gymraeg.pdf

Blaenoriaeth arall i ni yw ymestyn a chryfhau ein dealltwriaeth o’r amryw fodelau trochi hwyr sydd ar gael ar draws Cymru. Mae’r nifer sydd yn dymuno cael addysg cyfrwng Cymraeg yn hwyrach yn eu taith addysg yn cynyddu, ac o’r herwydd, rydym am sicrhau y cynnig gorau posibl i’r dysgwyr hynny.

### 3.3.8 Cynhadledd CSCA

Byddwn yn gwneud pob ymdrech i hwyluso cynhadledd CSCA blynyddol/ am yn ail flwyddyn er mwyn cynnig cyfle i unrhyw un sy’n ymwneud â’r gwaith o roi’r cynlluniau ar waith i rannu arferion da; dysgu mwy am egwyddorion cynllunio a hyrwyddo iaith yn genedlaethol, yn rhanbarthol ac yn lleol. Y nod yw gallu meithrin gwell dealltwriaeth o ddwyieithrwydd ac anghenion pob dysgwr Cymraeg a’u diwallu’n well.

# RHAN 4: ATODIADAU

Atodiad 1: Amserlen cynllunio a gweithredu Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg
Atodiad 2**:** Methodoleg i gyfrifo eich targed deng mlynedd
Atodiad 3: Y mudiadau a'r sefydliadau sydd yn gallu cefnogi gwaith gweithredu Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg gan awdurdodau lleol
Atodiad 4: Pensaernïaeth Dewis: Awgrymiadau i wneud i hyn oll ddigwydd

## Atodiad 1 - Amserlen cynllunio a gweithredu Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg

| | |
|---|---|
| O Ionawr 2021 – Medi 2022 | Awdurdodau lleol i gychwyn y broses o baratoi CSCA newydd mewn ymgynghoriad â'r Fforwm Cynllunio Cymraeg mewn Addysg y sir |
| Gorffennaf (yn flynyddol) | Llywodraeth Cymru i ddarparu pecyn data i awdurdodau lleol |
| Heb fod yn hwyrach na Medi 2021 – Tachwedd 2021 | Ymgynghoriad cyhoeddus ar CSCA drafft fesul awdurdod lleol |
| Heb fod yn hwyrach na 31 Ionawr 2022 | Awdurdodau lleol i gyflwyno eu Cynllun deng mlynedd cyntaf i Weinidogion Cymru i'w gymeradwyo |
| Chwefror 2022 – Mai 2022 | Cyfnod ystyried y CSCA gan Lywodraeth Cymru, i gynnwys trafodaethau pellach gydag awdurdodau lleol yn ôl y gofyn |
| Mehefin 2022 – Awst 2022 | Gweinidogion Cymru yn cymeradwyo'r CSCA |
| 1 Medi 2022 | CSCA newydd yn weithredol |
| Cyn y dyddiad y mae'r Cynllun yn cymryd effaith | Awdurdodau lleol i gyhoeddi ei Gynllun (neu ei Gynllun diwygiedig) |
| Heb fod yn hwyrach na 31 Gorffennaf 2023 | Cyflwyno adroddiad adolygu i Weinidogion Cymru. Rhaid i adroddiadau adolygu dilynol gael eu cyflwyno i Weinidogion Cymru ar gyfnodau heb fod yn fwy na 12 mis calendr ar ôl cyflwyno'r adroddiad blaenorol. |
| Heb fod yn hwyrach na 31 Mawrth yn y flwyddyn bydd y cynllun yn dod i rym | Rhaid i awdurdod lleol gyflwyno pob Cynllun deng mlynedd dilynol i Weinidogion Cymru i'w gymeradwyo heb fod yn hwyrach na 31 Mawrth yn y flwyddyn bydd y Cynllun yn cymryd effaith |

# Atodiad 2 - Methodoleg i gyfrifo eich targed deng mlynedd

## Methodoleg ar gyfer cyfrifo targedau i'w cynnwys yng Nghynlluniau Strategol deng mlynedd y Gymraeg mewn Addysg (CSCA) yr awdurdodau lleol

### 1. Y sefyllfa bresennol

Mae strategaeth Llywodraeth Cymru, *Cymraeg 2050: miliwn o siaradwyr*, yn cynnwys y nod o gynyddu'r gyfran o ddysgwyr sydd mewn addysg cyfrwng Cymraeg. Mae'r taflwybr a ddatblygwyd ar gyfer *Cymraeg 2050* yn cynnwys targedau cerrig milltir yn ystod 2021, 2031 a 2040 i gynyddu canran y dysgwyr sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg i 24 y cant erbyn 2020/21, 30 y cant erbyn 2031 a 40 y cant erbyn 2050. Mae data ysgolion yn dweud wrthym faint o blant sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn 2018/19, o'r 35,800 o ddysgwyr ym mlwyddyn 2, cafodd rhyw 23% (sef 8,100) eu hasesu yn Gymraeg (iaith gyntaf). [20]

Mae'r Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019 yn gwneud darpariaethau sy'n dweud bod rhaid i awdurdod lleol baratoi eu Cynlluniau ar sail ystod o dargedau dros gyfnod o ddeng mlynedd. Roedd trefniadau blaenorol y CSCA yn mesur nifer a chanran y dysgwyr Blwyddyn 2 a aseswyd yn Gymraeg iaith gyntaf. Mae casglu data cenedlaethol o asesiadau athrawon yn debygol o barhau i fesur nifer y dysgwyr Blwyddyn 2 a gaiff eu hasesu yn Cymraeg iaith gyntaf am y tro. Fodd bynnag, gall hyn newid wrth i'r cwricwlwm newydd gael ei gyflwyno dros y blynyddoedd i ddod ac efallai y caiff ei ddisodli gan drefniadau asesu newydd.

Rydym am sicrhau ein bod yn gallu mesur darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn gyson yn ystod y broses o weithredu trefniadau newydd y cwricwlwm. O'r herwydd, penderfynwyd seilio'r fethodoleg hon ar ddata'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) ar gyfer plant ym Mlwyddyn 1 sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd hyn yn seiliedig ar yr eitem ddata 'Astudio'r Gymraeg' ('Study of Welsh') ar gyfer dysgwyr ym Mlwyddyn 1 a gesglir yn CYBLD, sy'n nodi sut maent yn astudio Cymraeg yn yr ysgol – addysg Cymraeg iaith gyntaf neu ail iaith (neu dad-gymhwyswyd o'r cwricwlwm). Bydd hwn yn cael ei ddefnyddio fel mesur o ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg ym mhob awdurdod lleol.

Mae'r tabl isod yn dangos sut y mae nifer a chanran y **plant Blwyddyn 1** sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg wedi newid dros amser, ac mae'n gyson â'r modd y bwriadwn fesur darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn y dyfodol.

Am y rheswm hwn, rydym yn fodlon bod y cam i fesur y ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg gan ddefnyddio data CYBLD ar gyfer plant ym Mlwyddyn 1 sy'n cael ei addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn cefnogi'r targedau a amlinellir ar y taflwybr a ddatblygwyd ar gyfer strategaeth *Cymraeg 2050*. Data CYBLD ar gyfer dysgwyr Blwyddyn 1 yw'r set ddata fwyaf cynhwysfawr sydd ar gael ar gyfer dysgwyr yn ystod cyfnodau cynharaf addysg ysgol gynradd.

[20] Ni fu casgliad o ddata asesiadau athrawon yn 2019/20

**Tabl 1: Plant Blwyddyn 1 yn dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, 2011/12 i 2019/20**

| | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 | Targed 2020/21 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Nifer** | 7,671 | 7,831 | 8,104 | 7,856 | 8,110 | 8,124 | 8,295 | 8,057 | 7,848 | 8,400 |
| **Cyfanswm** | 33,231 | 34,055 | 35,537 | 34,674 | 35,302 | 35,936 | 35,531 | 34,419 | 33,728 | 35,000 |
| **Canran** | 23.1% | 23.0% | 22.8% | 22.7% | 23.0% | 22.6% | 23.3% | 23.4% | 23.3% | 24% |

Mae canran y plant Blwyddyn 1 sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg wedi aros o gwmpas 23 y cant ers 2011/12. Mae hyn yn gyson â chanran y dysgwyr Blwyddyn 2 a gaiff eu hasesu mewn Cymraeg iaith gyntaf drwy gasglu data cenedlaethol asesiadau athrawon.

Mae Tabl 1 yn dangos bod nifer y plant sydd ym Mlwyddyn 1 wedi bod yn amrywio ers 2011/12, ac felly hefyd nifer y plant sydd yn dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Fodd bynnag, mae mwy o blant Blwyddyn 1 yn cael eu dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg bellach nag oedd yn 2011/12.

## 2. Y dyfodol

Mae *Cymraeg 2050* yn cynnwys targed ar gyfer cynyddu'r gyfran o bob grŵp blwyddyn ysgol sy'n derbyn addysg cyfrwng Cymraeg o 22 y cant (yn seiliedig ar ddysgwyr 7,700 saith oed yn 2015/16) i **30 y cant** erbyn **2031** (tua 10,500 ym mhob grŵp blwyddyn), ac yna **40 y cant** erbyn **2050** (tua 14,000 ym mhob grŵp blwyddyn).

Felly, mae angen cyfrifo targedau ar gyfer pob awdurdod lleol er mwyn pennu llwybr clir ar gyfer cyrraedd y targedau cenedlaethol. Er mwyn cyflawni hyn, byddai angen un targed ar gyfer pob awdurdod lleol, yn seiliedig ar nifer y plant sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ym Mlwyddyn 1 fel yr amlinellir uchod, nid ar gyfanswm y dysgwyr ym mhob grŵp blwyddyn. Bydd nifer y dysgwyr sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn amrywio ym mhob grŵp blwyddyn, felly bydd y targed yn seiliedig ar nifer y dysgwyr Blwyddyn 1, sy'n cynrychioli cychwyn y cyfnod addysg statudol.

Nid yw hyn yn golygu na fydd angen rhoi ystyriaeth i ddata o amgylch dysgwyr Blwyddyn 2, neu ddata ar ddilyniant dysgwyr rhwng y cyfnodau allweddol amrywiol mwyach. Mae'r angen i'r CSCA barhau i ddangos sut mae plant sy'n derbyn darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg, neu sy’n cael y cyfle i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg, yn cael eu cefnogi a'u hannog i barhau ar eu taith ieithyddol, yn fwy perthnasol nag erioed.

## 3. Methodoleg ar gyfer cyfrifo’r targed deng mlynedd

Cynigir bod awdurdodau lleol yn cyfrifo eu targed ar sail nifer y plant Blwyddyn 1 sy’n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, gan ddefnyddio data 2019/20 fel llinell sylfaen. Mae’r fethodoleg hon yn ystyried yr ystod o ddarpariaeth addysg cyfrwng

Cymraeg  drwy gyflwyno system grŵp. Mae’r ffactorau sy’n cael eu hystyried wrth grwpio awdurdodau yn cynnwys: canran y dysgwyr sy’n cael eu haddysgu yn Gymraeg; y modelau darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg a fabwysiadwyd gan yr awdurdod a natur ieithyddol awdurdod lleol. Mae hyn yn egluro pam y gallai rhai awdurdodau lleol fod wedi’u gosod mewn un grŵp er bod eu canran gwaelodlin o ddysgwyr Blwyddyn 1 sy’n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn uwch na rhai o’r awdurdodau lleol mewn grŵp arall.

Rydym o’r farn bod y dull hwn yn decach gan ei fod yn cydnabod yr heriau gwahanol sy’n wynebu’r 22 awdurdod lleol. Mae hefyd yn glir i’r holl awdurdodau lleol beth y mae Gweinidogion Cymru yn credu ddylai eu cyfraniad fod wrth gyrraedd y targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Cynigir bod gan bob grŵp o awdurdodau lleol darged i gynyddu canran y dysgwyr Blwyddyn 1 sy’n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn ôl amrediad sefydlog o gynnydd mewn pwyntiau canran, yn seiliedig ar y ddarpariaeth ym mhob awdurdod lleol gan ddefnyddio data 2019/20 fel man cychwyn. Mae ychwanegu targedau o fewn ystod is ac uwch, yn ogystal â grwpio ardaloedd yn ôl eu darpariaeth bresennol yn cydnabod ymhellach y bydd y man cychwyn ar gyfer pob awdurdod yn wahanol ac y bydd llwybr pob awdurdod tuag at gyrraedd y targedau hynny yn amrywio. Mae’r pedwar grŵp o awdurdodau lleol fel a ganlyn.

**Tabl 2: Grwpiau o awdurdodau lleol ar gyfer cyfrifo targedau, gan gynnwys canran y plant Blwyddyn 1 sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn 2019/20**

| | Canran y plant Blwyddyn 1 a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg, 2019/20 |
|---|---|
| **Grŵp 1** | |
| Ynys Môn | 91.1 |
| Gwynedd | 98.5 |
| **Grŵp 2** | |
| Conwy | 25.8 |
| Sir Ddinbych | 27.3 |
| Powys | 22.2 |
| Ceredigion | 72.9 |
| Sir Benfro | 22.9 |
| Sir Gaerfyrddin | 58.4 |
| Castell-nedd Port Talbot | 17.0 |
| **Grŵp 3** | |
| Wrecsam | 15.0 |
| Abertawe | 15.4 |
| Bro Morgannwg | 14.3 |
| Rhondda Cynon Taf | 19.1 |
| Merthyr Tudful | 14.0 |
| Caerffili | 17.9 |
| Caerdydd | 16.9 |
| **Grŵp 4** | |
| Sir y Fflint | 6.3 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 7.6 |
| Blaenau Gwent | 3.7 |
| Torfaen | 13.0 |
| Sir Fynwy | 3.8 |
| Casnewydd | 5.7 |

**Grŵp 1**

Mae'r mwyafrif helaeth o blant Blwyddyn 1 (mwy na 91% yn 2019/20) eisoes yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn yr awdurdodau lleol hyn. Addysg gymunedol cyfrwng Cymraeg yw'r norm ac mae ysgolion cyfrwng Saesneg yn eithriadau prin.

**Grŵp 2**

Roedd rhwng 17% a 73% o blant Blwyddyn 1 yn yr awdurdodau lleol hyn yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn 2019/20. Efallai mai addysg gymunedol drwy gyfrwng y Gymraeg yw'r norm, neu ei bod yn norm mewn nifer sylweddol o gymunedau o fewn yr awdurdod lleol. Mewn ardaloedd eraill, mae dewis rhwng addysg cyfrwng Cymraeg ac addysg cyfrwng Saesneg.

**Grŵp 3**

Roedd rhwng 14% a 19% o blant Blwyddyn 1 yn yr awdurdodau lleol hyn yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn 2019/20. Efallai mai addysg gymunedol cyfrwng Cymraeg yw'r norm mewn un/nifer fach iawn o ardaloedd, ond dyma'r eithriad nid y rheol. Fel arfer mae dewis rhwng addysg cyfrwng Cymraeg ac addysg cyfrwng Saesneg.

**Grŵp 4**

Roedd 13% y cant neu lai o blant Blwyddyn 1 yn yr awdurdodau lleol hyn yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn 2019/20. Mae dewis rhwng addysg cyfrwng Cymraeg ac addysg cyfrwng Saesneg yn yr awdurdodau lleol hyn.

Cynigir bod pob grŵp o awdurdodau lleol yn cyfrifo eu targed i gynyddu canran y plant Blwyddyn 1 sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ar sail amrediad sefydlog o gynnydd pwyntiau canran, sy'n seiliedig ar y ddarpariaeth bresennol ym mhob awdurdod lleol, a chan ddefnyddio data 2019/20 fel gwaelodlin.

Mae'r tabl canlynol yn dangos yr amrediad o gynnydd mewn pwyntiau canran plant Blwyddyn 1 sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg a ddisgwylir ar gyfer pob grŵp o awdurdodau lleol er mwyn cyfrannu at y targed cenedlaethol o 30% y o ddysgwyr yn derbyn addysg cyfrwng Cymraeg erbyn 2030/31. Bydd pob awdurdod lleol yn perthyn i un o'r grwpiau canlynol, fel sydd wedi'i amlinellu uchod.

**Tabl 3: Ystod y cynnydd mewn pwyntiau canran yn y plant Blwyddyn 1 sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer pob grŵp o awdurdodau lleol i gyfarfod er mwyn cyfrannu at y targed cenedlaethol o 30% o ddysgwyr yn derbyn addysg cyfrwng Cymraeg erbyn 2030/31**

| | Amrediad cynnydd pwyntiau canran | |
|---|---|---|
| | **Isaf** | **Uwch** |
| **Grŵp 1** | 0 | 0+ |
| **Grŵp 2** | 10 | 14+ |
| **Grŵp 3** | 8 | 12+ |
| **Grŵp 4** | 6 | 10+ |

Pennwyd yr amrediad isaf ar gyfer pob grŵp o awdurdodau lleol fel bod y targed cenedlaethol o sicrhau bod 30 y cant o ddysgwyr Blwyddyn 1 yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg erbyn 2030/31 yn cael ei gyflawni.

Ni ddylid ystyried yr amrediad uwch yn derfyn uchaf – anogir awdurdodau lleol i ragori ar y targedau lle y bo'n bosibl.

Ar gyfer yr awdurdodau lleol yng Ngrŵp 1, y nod yw cynnal y ddarpariaeth bresennol o addysg cyfrwng Cymraeg yn eu hardal: yn 2019/20, roedd canran y dysgwyr Blwyddyn 1 sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg rhwng 91% a 99%.

Mae'r tabl canlynol yn dangos enghraifft o beth allai'r targedau fod ar gyfer awdurdod lleol ym mhob grŵp.

Mae'r tabl canlynol yn dangos enghraifft o beth allai'r targedau fod ar gyfer awdurdod lleol ym mhob grŵp.

**Tabl 4: Enghraifft o dargedau ar gyfer pob grŵp o awdurdodau lleol**
**Canran y dysgwyr Blwyddyn 1 sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg**

| | 2019/20 | Targed 2030/31 | |
|---|---|---|---|
| | | Amrediad Isaf | Amrediad Uwch |
| **Grŵp 1** | | | |
| Awdurdod lleol A | 93 | (93+0) 93 | (93+0) 93+ |
| **Grŵp 2** | | | |
| Awdurdod lleol B | 32 | (32+10) 42 | (32+14) 46+ |
| **Grŵp 3** | | | |
| Awdurdod lleol C | 27 | (27+8) 35 | (27+12) 39+ |
| **Grŵp 4** | | | |
| Awdurdod lleol D | 6 | (6+6) 12 | (6+10) 16+ |

Mae p'un a yw dysgwr Blwyddyn 1 yn cael ei addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ai peidio yn cael ei gofnodi yn y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion Llywodraeth Cymru. Mae'r wybodaeth hon ar gael i bob dysgwr pump oed neu'n hŷn. Mae Tabl 5 yn dangos y targedau ar gyfer 2030/31 ar gyfer pob awdurdod lleol gan ddefnyddio'r fethodoleg arfaethedig bresennol.

**Tabl 5: Targedau awdurdodau lleol yn seiliedig ar y fethodoleg (yn nhrefn y grŵp), 2030/31**

| | 2019/20 | | Targed 2030/31 | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Ystod Isaf | | Ystod Uwch | |
| | Rhif | Canran | Rhif | Canran | Rhif | Canran |
| **Grŵp 1** | | | | | | |
| Ynys Môn | 654 | 91.1% | 655 | 91% | 655 | 91% |
| Gwynedd | 1,143 | 98.5% | 1,145 | 99% | 1,145 | 99% |
| **Grŵp 2** | | | | | | |
| Conwy | 283 | 25.8% | 395 | 36% | 435 | 40% |
| Sir Ddinbych | 299 | 27.3% | 410 | 37% | 455 | 41% |
| Powys | 283 | 22.2% | 410 | 32% | 460 | 36% |
| Ceredigion | 465 | 72.9% | 530 | 83% | 555 | 87% |
| Sir Benfro | 293 | 22.9% | 420 | 33% | 470 | 37% |
| Sir Gaerfyrddin | 1,126 | 58.4% | 1,320 | 68% | 1,395 | 72% |
| Castell Nedd Port Talbot | 252 | 17.0% | 400 | 27% | 460 | 31% |
| **Grŵp 3** | | | | | | |
| Wrecsam | 235 | 15.0% | 360 | 23% | 425 | 27% |
| Abertawe | 390 | 15.4% | 590 | 23% | 695 | 27% |
| Bro Morgannwg | 221 | 14.3% | 345 | 22% | 405 | 26% |
| Rhondda Cynon Taf | 506 | 19.1% | 720 | 27% | 825 | 31% |
| Merthyr Tudful | 100 | 14.0% | 155 | 22% | 185 | 26% |
| Caerffili | 359 | 17.9% | 520 | 26% | 600 | 30% |
| Caerdydd | 702 | 16.9% | 1,035 | 25% | 1,200 | 29% |
| **Grŵp 4** | | | | | | |
| Sir y Fflint | 105 | 6.3% | 205 | 12% | 270 | 16% |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 119 | 7.6% | 215 | 14% | 275 | 18% |
| Blaenau Gwent | 29 | 3.7% | 75 | 10% | 105 | 14% |
| Torfaen | 139 | 13.0% | 205 | 19% | 245 | 23% |
| Sir Fynwy | 32 | 3.8% | 80 | 10% | 115 | 14% |
| Casnewydd | 113 | 5.7% | 230 | 12% | 310 | 16% |
| **Cymru** | **7,848** | **23.3%** | **10,415** | **31%** | **11,690** | **35%** |

# Atodiad 3 – Y mudiadau a'r sefydliadau sydd yn gallu cefnogi gwaith gweithredu Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg gan awdurdodau lleol

## Mudiad Meithrin

Nod Mudiad Meithrin yw rhoi cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru fanteisio ar wasanaethau a phrofiadau blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae aelodau'r Mudiad yn cynnwys Cylchoedd Meithrin, Cylchoedd Ti a Fi a meithrinfeydd dydd sy'n cynnig gwasanaethau cyfrwng Cymraeg ledled Cymru. Yn ogystal â chefnogi ei aelodau, mae Mudiad Meithrin hefyd yn gweithio ar y cyd ag awdurdodau lleol a phartneriaid eraill i ddatblygu darpariaeth newydd drwy ei rhaglen 'Sefydlu a Symud' (SAS).

Mae mwy o fanylion ar gael ar: https://www.meithrin.cymru/

## Cymraeg i Blant

Nod rhaglen Cymraeg i Blant yw cefnogi rhieni, darpar rieni ac aelodau teulu eraill i ddefnyddio'r Gymraeg yn y cartref, trosglwyddo'r Gymraeg i'w plant, a chefnogi datblygiad ieithyddol plant.

Mae'r rhaglen yn cynnig sesiynau (e.e. tylino, ioga ac amser stori a chân i fabanod) rhad ac am ddim i rieni/gwarcheidwaid mewn lleoliadau cymunedol. Mae'r rhaglen hefyd yn gweithio gyda'r GIG a phartneriaid eraill i rannu gwybodaeth gyda rhieni/gwarcheidwaid am y dewisiadau sydd ar gael iddynt o ran gofal plant ac addysg cyfrwng Cymraeg a sut y gellir cefnogi'r plentyn ar hyd y daith i addysg Gymraeg.

Mae mwy o fanylion ar gael ar: https://llyw.cymru/cymraeg-i-blant

## Consortia Rhanbarthol

Mae'r consortia rhanbarthol ar gyfer gwella ysgolion, sydd yn gweithio ar ran awdurdodau lleol, yn arwain, trefnu ac yn cydlynu gwelliannau ym mherfformiad ysgolion ac yn addysg ein pobl ifanc. Helpu'r rheini sy'n addysgu ein plant a'n pobl ifanc yw prif genhadaeth a diben ein consortia rhanbarthol. Eu swyddogaeth, yn sgil hynny, yw cefnogi ysgolion ac awdurdodau lleol gyda'u hymdrechion i:

- wella deilliannau dysgu ar gyfer pob person ifanc;
- sicrhau bod yr addysgu a'r dysgu a geir o safon;
- cefnogi a galluogi arweinwyr ysgolion i arwain eu hysgolion yn well.

Mae mwy o fanylion ar gael ar:
GwE: https://www.gwegogledd.cymru/
ERW: https://www.erw.cymru/
EAS: https://www.cpdsewales.org.uk/cpd/default.asp
Consortiwm Canolbarth y De: https://www.cscjes-cronfa.co.uk/

## RhAG – Rhieni dros Addysg Gymraeg

Hanfod RhAG yw cefnogi rhieni/gofalwyr wrth iddynt fynd ar y daith gyda'u plant drwy Addysg Gymraeg a thu hwnt. Mae'r cyfnod yn cychwyn cyn geni'r plentyn, gyda'r gwaith hyrwyddo o fewn y sector cyn geni a'r blynyddoedd cynnar, ac mae'r mudiad yn cydweithio â rhan-ddeiliaid yn gadarnhaol ac yn rhagweithiol i sicrhau bod mynediad at Addysg Gymraeg ar gael i bawb sydd yn ei dymuno.

Drwy'r gwaith hwn mae RhAG hefyd yn gweithio er mwyn sicrhau bod mwy o ysgolion Cymraeg yn agor ar hyd a lled Cymru fel bod y galw'n codi. Mae'n cydweithio'n agos ag ystod eang o randdeiliaid - ysgolion, awdurdodau lleol, Mentrau Iaith, consortia addysg, Urdd Gobaith Cymru, Mudiad Meithrin, darpariaethau gofal preifat, Llywodraeth leol a Chenedlaethol.

Gweithia hefyd gyda rhieni'n uniongyrchol i'w cefnogi pan fo achosion penodol yn codi. Gwneir hynny drwy gynghori a chynrychioli uniongyrchol.
Mae rhwydwaith o wirfoddolwyr ar draws Cymru, yn rhieni, yn ofalwyr ac yn gyfeillion i Addysg Gymraeg, yn cynrychioli'r mudiad drwy amrywiaeth o bwyllgorau a fforymau ac yn bwydo yn ôl i bwyllgor rheoli cenedlaethol.

I gael rhagor o fanylion ewch i: [www.rhag.cymru](http://www.rhag.cymru)

## Urdd Gobaith Cymru

Nod yr Urdd yw sicrhau cyfle, trwy gyfrwng y Gymraeg, i holl ieuenctid Cymru ddatblygu'n unigolion cyflawn, a'u galluogi i chwarae rhan adeiladol yn y gymdeithas, gan feithrin sgiliau personol a chymdeithasol.

Mae gan yr Urdd dros 53,000 o aelodau, a thrwy weithgareddau a chyfeillgarwch yn dod â'r Gymraeg yn fyw i blant a phobl ifanc. Mae'r Urdd yn hybu ac yn hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg ar draws ystod o weithgareddau'r Urdd ar draws cymunedau Cymru, trwy gynnal Eisteddfodau Cylch a sir, fforymau ieuenctid, cyfleoedd cymdeithasol, chwaraeon, ynghyd â chyhoeddi 3 chylchgrawn a sicrhau presenoldeb digidol ar amryw o gyfryngau cymdeithasol.

Bydd y gweithgareddau'n arwain at ganlyniadau ieithyddol drwy roi cyfle i blant a phobl ifanc gynyddu eu defnydd o'r Gymraeg, gwella eu sgiliau a dod yn fwy hyderus o ran eu Cymreictod.

I gael rhagor o fanylion ewch i: [https://www.urdd.cymru/cy](https://www.urdd.cymru/cy)

## Mentrau Iaith

Nod y Mentrau Iaith yw hybu a hyrwyddo'r Gymraeg ar draws Cymru. Mae 22 o Fentrau Iaith, sy'n gwasanaethu pob cwr o Gymru.

Mae cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r ysgol yn bwysig ac yn werthfawr i'r dysgwr. Ymhlith nifer o bethau eraill, mae'r Mentrau yn gallu cynnig cymorth i ysgolion gan gynnwys gwasanaethau meithrinfa, gwasanaethau mynediad agored yn ystod gwyliau ysgol, cynlluniau gofal ar gyfer cyfnodau gwyliau ysgol neu glybiau ysgol difyr.

Mae mwy o fanylion ar gael ar: http://mentrauiaith.cymru/

## Coleg Addysg Bellach a Phrentisiaethau

Mae gan y colegau addysg bellach a'r sector prentisiaethau ran bwysig i'w chwarae wrth gynllunio addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg a dwyieithog a chreu dilyniant ieithyddol priodol i bobl ifanc wrth symud o'r ysgol i sefydliadau eraill ôl-16.

Ymestynnodd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ei gyfrifoldebau i gynnwys y sector ôl-16 yn ddiweddar a'i swyddogaeth yw cydweithio â phartneriaid i ddatblygu'r seilwaith cyfrwng Cymraeg a dwyieithog.
Mae mwy o fanylion ar gael ar: http://www.colegcymraeg.ac.uk/cy/

Am ragor o wybodaeth am ColegauCymru sy'n cynrychioli'r sefydliadau addysg bellach wrth lunio polisïau sy'n dylanwadu ar y sector ôl-16:
http://www.colegau.cymru/hafan.php?Lang=2

Ceir darpariaeth brentisiaethau gan golegau addysg bellach a chwmnïau preifat lleol a chenedlaethol ym mhob rhan o Gymru, ac maent yn darparu hyfforddiant gyda chyflogaeth i bobl ifanc ôl-16 a phob oedran.

Mae mwy o fanylion ar gael ar: https://www.ntfw.org/wel/

## Sefydliadau Addysg Uwch

Mae saith sefydliad addysg uwch yng Nghymru yn cynnig ystod eang o gyrsiau israddedig ac uwch-raddedig sy'n sicrhau dilyniant ieithyddol pellach yn y sector addysg, ac mae'r prifysgolion yn cael eu cynnwys ar y Fforymau.
Mae mwy o fanylion ar gael ar: http://www.colegcymraeg.ac.uk/cy/

# Atodiad 4: Pensaernïaeth Dewis: Awgrymiadau i wneud i hyn oll ddigwydd

1. Mae'n debyg y byddwch eisoes yn defnyddio system gofrestru gyfrifiadurol er mwyn gwybod pwy sydd am fynychu pa ysgolion. Gall rhai camau bach wneud yn siŵr bod y systemau hyn yn cynnig dewis plaen a syml i rieni a allai anfon eu plant i addysg cyfrwng Cymraeg. Mae’r peth yn syml – os bydd rhaid iddyn nhw chwilio am wybodaeth am addysg Gymraeg neu angen gofyn amdani, fydd llawer ohonynt ddim yn gwneud ymholiadau pellach. Rhowch y dewis yn glir iddynt. a'i wneud yn ddeniadol.
2. A yw eich holl ryngweithio â darpar rieni yn dilyn egwyddorion EAST (Easy, Attractive, Social and Timely)? Meddyliwch am y cyfan o safbwynt y rhieni (a yw’n hawdd, yn ddeniadol, yn gymdeithasol ac yn amserol) o ran dewis addysg cyfrwng Cymraeg os nad ydynt yn siarad Cymraeg? Cynhyrchwyd canllawiau EAST gan Swyddfa'r Cabinet i helpu i gynllunio gwasanaethau'n dda. Ydych chi wedi dilyn y canllawiau'n drwyadl wrth gynllunio addysg cyfrwng Cymraeg? Mae EAST yn fersiwn fwy syml o'r model MINDSPACE. Gallech chi ddefnyddio hwnnw hefyd.
3. Gallech wneud ymchwil i brofiad defnyddwyr [UX] ynghylch pa mor hawdd yw hi i rieni fanteisio ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Dylech ddefnyddio *darpar rieni go iawn* i wneud hynny, a dylech ddefnyddio methodoleg ymchwil defnyddwyr proffesiynol a/neu gwmni i wneud hynny.
4. Yn ogystal ag EAST, dylai popeth a wnewch ddefnyddio methodoleg *dylunio gyda bwriad* (Design with Intent) (y bwriad yw cynyddu nifer y disgyblion mewn darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn ôl eich CSCA).
5. Oes gyda chi ffrind beirniadol i'ch helpu? Ydych chi wedi siarad ag awdurdod sydd wedi dilyn y broses hon yn drylwyr? Ydych chi wedi gweld eu cofnod o wersi a ddysgwyd? A ydych chi'n cadw cofnod o wersi a ddysgwyd – gallech chi fod yn esiampl i eraill yn y dyfodol.
6. Mae Saernïo Dewis i gynyddu'r defnydd o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn prosiect y bydd angen i chi ei wneud. Felly bydd yn rhaid i chi reoli'r gwaith hwn o dan fethodoleg rheoli rhaglen/prosiect gydnabyddedig.
7. Bydd angen i chi wneud yn siŵr eich bod yn sicrhau bod elfennau o’r gwaith yn cael ei wneud gan rannau perthnasol o'ch sefydliad (e.e. (1) taith y defnyddiwr ar y wefan, (2) adolygu'r holl destun ar addysg cyfrwng Cymraeg y mae rhieni'n ei weld. (3) ailysgrifennu hyn mewn naratif gadarnhaol gyda strategaeth farchnata/lafar gydnabyddedig. (4) optimeiddio peiriannau chwilio
8. Ry’n ni’n creu pecyn adnoddau o gynnwys ar y we am addysg cyfrwng Cymraeg i chi ac rydym wedi sicrhau’r ansawdd – ailddefnyddiwch y rhain fel y mynnwch! Byddwn ni’n ychwanegu atynt yn rheolaidd, a hefyd yn rhoi arweiniad ar sut i greu naratif gadarnhaol mewn perthynas â’r Gymraeg.
9. Ry’n ni wedi creu fideos am addysg cyfrwng Cymraeg – defnyddiwch nhw!
10. Weithiau mae'r systemau cyfrifiadurol sy’n cael eu defnyddio i gofrestru plant ar gyfer ysgolion yn cymryd amser hir i newid. Allech chi gydweithio ag

awdurdodau eraill a'r gweithgynhyrchwyr er mwyn i ysgolion cyfrwng Cymraeg fod yn fwy gweladwy i rieni?

11. Beth am optimeiddio peiriannau chwilio? Beth mae rhiant yn ei weld pan fydd yn chwilio am 'schools in my area’ ‘ysgolion yn fy ardal i ' neu dermau chwilio eraill? A yw gwybodaeth am ysgolion Cymraeg yno yn blaen o'r dechrau? A yw'r negeseuon ar y canlyniadau chwilio wedi'u profi i ddenu pobl i mewn?